# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
|---|---|
| **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** | **Sarah Beasley** |
| Dyddiad: Dydd Iau, 1 Rhagfyr 2016 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 09.15 | 0300 200 6565 |
| | SeneddIechyd@cynulliad.cymru |

## Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.15 - 09.30)

## Cyhoedd

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Sesiwn graffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2015-16 a Rhaglen Waith y Comisiynydd ar gyfer 2016-17

(09.30 - 11.00) (Tudalennau 1 - 70)

Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4, 5 ac 6

## Egwyl (11.00 - 11.05)

## Preifat

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 4 Sesiwn graffu ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2015-16 a Rhaglen Waith y Comisiynydd ar gyfer 2016-17 - ystyried y dystiolaeth

(11.05 - 11.15)

## 5 Trafod y rheoliadau a wneir o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

(11.15 - 11.30) (Tudalennau 71 - 101)

SUB-LD10819 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016

SUB-LD10821 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016

SUB-LD10822 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016

SUB-LD10825 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016

SUB-LD10826 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli: Personau Rhagnodedig) 2016

SUB-LD10827 - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016

## 6 Ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016/17 - ystyried y ddogfen ddrafft

(11.30 - 12.00)

## Egwyl (12.00 - 12.30)

## Cyhoedd

## 7 Bill Iechyd y Cyhoedd (Cymru) – Cyfnod 1, sesiwn dystiolaeth 1 – Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(12.30 – 14.00) (Tudalennau 102 – 130)

Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Chris Tudor-Smith, Uwch Swyddog Gyfrifol
Rhian Williams, Gwasanaethau Cyfreithiol
Chris Brereton, Prif Swyddog dros Iechyd Amgylcheddus
Sue Bowker, Cangen Polisi Tybaco

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)
Memorandwm Esboniadol

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## Preifat

## 9 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) – Cyfnod 1, sesiwn dystiolaeth 1 – ystyried y dystiolaeth

(14.00 – 14.15)

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) – Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol – Ystyried yr adroddiad drafft

(14.15 – 14.30) (Tudalennau 131 – 132)

## 11 Ymchwiliad i recriwtio meddygol – paratoi i gymryd tystiolaeth

(14.30 – 14.45) (Tudalennau 133 – 135)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# Papur Briffio:
# Y diweddaraf am waith y Comisiynydd Pobl Hŷn

Ar 1 Rhagfyr, bydd y Comisiynydd yn mynd i sesiwn graffu gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a fydd yn cwmpasu'r amrywiaeth eang o waith a nodir yn ei Hadroddiad Effaith a Chyrhaeddiad 2015-16. Gan fod yr Adroddiad yn trafod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am rywfaint o'r gwaith y mae'r Comisiynydd wedi'i wneud yn fwy diweddar, o fis Ebrill 2016 ymlaen.

## Ddeddfwriaeth i warchod hawliau pobl hŷn

Yn dilyn ei galwad am gyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n cynnwys, yn y gyfraith, ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ddiogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, mae'r Comisiynydd wedi parhau i weithio gyda chriw o arbenigwyr o'r sector cyfreithiol, sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn ogystal â phobl hŷn, i ystyried sut gallai hynny weithio'n ymarferol.

Nod y ddeddfwriaeth a gynigir gan y Comisiynydd yw sicrhau bod y modd y mae gwasanaethau'n cael eu dylunio a'u darparu nid yn unig yn diogelu ac yn hyrwyddo hawliau pobl hŷn, ond hefyd yn gwneud hawliau'n berthnasol i bobl hŷn, yn eu bywydau bob dydd, fel y gallant hwy, neu'r rhai sy'n gweithio ar eu rhan, weld pan nad yw eu hawliau'n cael eu cynnal a herio darparwyr gwasanaethau'n gadarn ac yn effeithiol.

Yn ddiweddar, cafodd y Comisiynydd gyfarfod cadarnhaol â'r Prif Weinidog i drafod ei chynigion, ac yn dilyn hynny cadarnhaodd ei fod yn cefnogi'r cynnig am ddeddfwriaeth ac y byddai'n ystyried ac yn trafod y cynnwys gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd cyn darparu ymateb manylach. Bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi datganiad ar Ddiwrnod Hawliau Dynol y Byd (10 Rhagfyr) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu.

## Mynediad at wasanaethau Meddygon Teulu yng Nghymru a phrofiadau o'u defnyddio

Cafwyd ymateb rhagorol i alwad y Comisiynydd am dystiolaeth fel rhan o'i gwaith i sicrhau bod gwasanaethau meddyg teulu yn hygyrch ac yn diwallu anghenion pobl hŷn. Fe wnaeth dros 1,000 o bobl hŷn lenwi holiaduron i rannu eu profiadau o gyrchu a defnyddio gwasanaethau meddyg teulu, tra bod dros 600 o unigolion wedi cymryd rhan

mewn 40 o grwpiau ffocws a gynhaliwyd ledled Cymru i glywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn.

Roedd yr holiaduron a'r sesiynau grŵp ffocws yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys y broses apwyntiadau, hygyrchedd ac amgylchedd meddygfeydd, a'r ffyrdd mae meddygon teulu, nyrsys practis a staff eraill y feddygfa yn rhyngweithio â chleifion yn ystod apwyntiadau. Cafodd nifer o sesiynau grwpiau ffocws eu hanelu hefyd at bobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig, gyda sesiynau penodol ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig hŷn, pobl hŷn ag anableddau a phobl hŷn sydd wedi colli un neu ragor o'r synhwyrau.

Mae'r ymatebion i'r holiadur a'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd, a bydd yn ffurfio sail adroddiad, y bwriedir ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2017, a fydd yn nodi arferion da a meysydd lle mae angen gwelliannau.

## Dementia: Mwy na dim ond Colli'r Cof

Ym mis Mawrth, cyhoeddodd y Comisiynydd 'Dementia: Mwy na Dim ond Colli'r Cof', sef adroddiad a roddodd lais i bobl sy'n byw â dementia ac i'w gofalwyr.

Canfu'r adroddiad fod diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth am ddementia o hyd, er gwaethaf y cynnydd sydd wedi'i weld yn y blynyddoedd diweddar. Yn ogystal, yn aml iawn, nid yw gwasanaethau dementia'n ddigon hyblyg i fodloni anghenion y bobl sydd â dementia a'r rhai sy'n gofalu amdanynt yn effeithiol. Yn ogystal â hyn, mae diffyg cydweithredu rhwng gwasanaethau yn golygu anawsterau a rhwystrau diangen. Hefyd, mae ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael yn amrywio'n helaeth yng Nghymru.

Roedd yn ofynnol i'r Partneriaethau Rhanbarthol sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion pobl sy'n byw gyda dementia yn eu hardaloedd ddarparu ymateb i'r adroddiad erbyn mis Gorffennaf, gan nodi'r camau y byddant yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm wedi dadansoddi'r ymatebion hyn yn awr ac wedi darparu adborth manwl i bob Partneriaeth, yn ogystal ag adborth Cymru-gyfan i Lywodraeth Cymru. Yn ei gohebiaeth ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, nododd y Comisiynydd yn glir beth oedd ei disgwyliadau ynghylch y Strategaeth Dementia newydd, sy'n cael ei datblygu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, sef ei bod yn ymateb yn uniongyrchol i'r materion y mae angen mynd i'r afael â nhw o hyd mewn ffordd sy'n ystyrlon ac yn berthnasol i bobl sy'n cael eu heffeithio gan ddementia.

## Canllawiau i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Rhwng Rhagfyr 2014 a Gorffennaf 2016, ymwelodd y Comisiynydd a'i thîm â holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, i gael cipolwg ar eu gwaith a'r heriau penodol fydd yn eu hwynebu wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau llesiant lleol, sy'n nodi sut maent yn bwriadu cyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol newydd.

Er mwyn sicrhau bod y cynlluniau hyn yn adlewyrchu anghenion, dymuniadau ac amgylchiadau pobl hŷn, cyhoeddodd y Comisiynydd ganllawiau i Fyrddau

Gwasanaethau Cyhoeddus a fydd nid yn unig yn cefnogi newid diwylliant yn y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion unigolion, ond hefyd yn gwneud yn glir pa mor bwysig yw gosod canlyniadau wrth wraidd darparu gwasanaethau.

## Mynd i'r afael â sgamiau

Gan adeiladu ar lansiad Cynllun Gweithredu Partneriaeth Cymru yn Erbyn Sgamiau (WASP) ym mis Mawrth 2016, gweithiodd y Comisiynydd mewn partneriaeth â Safonau Masnach Cenedlaethol i lansio'r Fenter Cyfeillion yn erbyn Sgamiau yng Nghymru.

Bwriad Ffrindiau yn erbyn Sgamiau yw amlygu maint y broblem ac effaith sgamiau, newid y farn ynghylch pam mae pobl yn derbyn sgamiau a sbarduno pobl i weithredu er mwyn amddiffyn pobl rhag sgamwyr, sef troseddwyr sy'n aml yn manteisio ar aelodau agored i niwed yn y gymdeithas. Gyda rhagor o wybodaeth ac ymwybyddiaeth am sgamiau, gall pobl wneud sgamiau'n rhan o'u sgyrsiau bob dydd gyda theulu, ffrindiau a chymdogion, yn ogystal ag ymysg gweithwyr proffesiynol a'r rhai maen nhw'n eu cefnogi, a fydd yn galluogi pobl i ddiogelu eu hunain ac eraill.

Daeth cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i'r digwyddiad lansio, a wnaeth addewidion yn nodi'r rôl y byddant yn ei chwarae wrth fynd i'r afael sgamiau yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi ysgrifennu at gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ddarparu gwybodaeth iddynt am Gyfeillion yn erbyn Twyll, gan eu hannog i gofrestru a chymryd rhan yn y fenter.

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Law yn llaw â chyhoeddi taflen sy'n rhoi crynodeb i bobl hŷn o brif ddyletswyddau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mae'r Comisiynydd hefyd wedi cyhoeddi cyfres o daflenni ffeithiau defnyddiol sy'n darparu rhagor o wybodaeth fanwl am wahanol rannau o'r Ddeddf. Mae'r pynciau a drafodir yn cynnwys cael gafael ar wybodaeth, gwasanaethau cyngor a chymorth, asesiadau anghenion, talu am ofal a'r hyn y gall pobl hŷn ei wneud os nad ydynt yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Yn ogystal â hyn, bydd y Comisiynydd yn parhau i fonitro a chraffu ar weithredu meysydd allweddol y Ddeddf, gan gynnwys mynediad at eiriolaeth broffesiynol annibynnol; gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth; asesiadau anghenion; sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig; a'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol.

## Ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol

Mae'r Comisiynydd wedi datblygu nifer o seminarau hyfforddi sy'n gysylltiedig â meysydd allweddol o'i gwaith i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol. Mae'r seminarau wedi eu cynllunio i sicrhau bod y rhai sy'n gweithio gyda phobl hŷn ac ar eu rhan yn deall yn llawn beth yw eu hanghenion a'r heriau y gallent eu hwynebu, a bod hyn yn cael ei adlewyrchu mewn polisi ac arfer ar draws Cymru.

Ers mis Ebrill, mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno cyfres o chwe Seminar Diogelu Pobl Hŷn rhag Camdriniaeth Ddomestig, a oedd yn tynnu sylw at epidemig cudd cam-drin

domestig ymysg pobl hŷn a'r ffyrdd y gellir delio â hyn yn fwy effeithiol; cyfres o seminarau ar gyfer darparwyr gofal preswyl a nyrsio yn gysylltiedig â’i Hadolygiad o Gartrefi Gofal, a oedd yn edrych ar y ffyrdd y gall staff gofal greu profiadau cadarnhaol i breswylwyr a gwella ansawdd eu bywyd; a chyfres o Seminarau Mynd i'r Afael ag Oedraniaeth, a oedd yn edrych ar y ffyrdd y gall rhagfarn ar sail oed effeithio ar fywydau pobl hŷn a sut gall cynrychiolwyr ddatblygu cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus sy'n fwy ystyriol o oedran.

## Heneiddio’n Dda yng Nghymru

Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cam Dau Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru ym mis Hydref, gan nodi'r amrywiaeth eang o gamau gweithredu a fydd yn cael eu cyflwyno gan sefydliadau sy'n bartneriaid ar draws pum thema’r rhaglen.

Mae enghreifftiau o gamau o fewn y Cynllun yn cynnwys gwaith i sicrhau bod trafnidiaeth, mannau yn yr awyr agored ac adeiladau yn fwy ystyriol o oedran; gweithio i sicrhau bod ymwybyddiaeth yn parhau i gael ei chodi am ddementia a datblygu cymunedau Cefnogi Pobl â Dementia; gwaith i atal cwympiadau drwy fentrau fel ‘Sadiwch i... gadw'n SAFF’, Hyfforddiant Gweithredol Effaith Isel a’r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff; gweithio i wella cyfleoedd ar gyfer dysgu a chyflogaeth drwy fynd i'r afael â rhagfarn ar sail oed yn y gweithle a sicrhau gwell mynediad at brentisiaethau; a gweithio i ddatblygu gwasanaethau cymorth a chynlluniau cyfeillio i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd.

Law yn llaw â'r gwaith hwn ar lefel genedlaethol, strategol, bydd Cam Dau Heneiddio'n Dda yng Nghymru hefyd yn gweld camau gweithredu yn cael eu cymryd mewn cymunedau ledled Cymru drwy'r rhwydweithiau Heneiddio'n Dda lleol, sydd erbyn hyn yn cynnwys dros fil o aelodau ar draws Cymru.

## Estyn allan at bobl hŷn a'u cefnogi

Mae Tîm Gwaith Achos Amddiffyn a Chraffu’r Comisiynydd wedi parhau i roi cymorth a chefnogaeth i bobl hŷn ledled Cymru, gan eu helpu i ddatrys amrywiaeth eang o faterion, gyda llawer ohonynt wedi parhau am gyfnodau sylweddol o amser ac wedi peri pryder a gofid sylweddol.

Fe wnaeth y Comisiynydd a'i thîm hefyd barhau i gyfarfod a siarad â phobl hŷn ledled Cymru fel rhan o Sioe Deithiol Ymgysylltu barhaus, sy'n darparu cyfleoedd nid yn unig i rannu gwybodaeth am waith y Comisiynydd a'r ffyrdd y gall hi roi cefnogaeth, ond hefyd i glywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn am y materion sydd bwysicaf iddynt a sicrhau bod eu lleisiau'n llywio a gyrru gwaith y Comisiynydd.

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

# Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 08442 640 670
E-bost: ask@olderpeoplewales.com

Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Trydar: @comisiwnphcymru

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# Sbarduno Newid, Gwella Bywydau

## Adroddiad Effaith a Chyrhaeddiad 2015-16

Llais ac eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb..

# Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:


Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru<br>
Adeiladau Cambrian<br>
Sgwâr Mount Stuart<br>
Caerdydd<br>
CF10 5FL

Ffôn: 029 2044 5030<br>
E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com<br>
Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Trydar: @comisiwnphcymru


# Fformatau Hygyrch

Of hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae pob un o'n cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn nifer o fformatau gwahanol oddi ar ein gwefan.

**Mae copi llawn o Gyfrifon Blynyddol y Comisiynydd ar gael yn www.olderpeoplewales.com**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 04 |
| Ymgysylltu a gwrando ar bobl hŷn ar draws Cymru | 07 |
| Creu Newid i Bobl Hŷn | 12 |
| Edrych i'r Dyfodol | 40 |

# Rhagair



Mae pobl hŷn yng Nghymru yn ased rhyfeddol. Ac er ei bod yn gwbl briodol ein bod yn gwneud ein gorau i amddiffyn ac i ddarparu gofal a chymorth i bobl hŷn sydd angen hynny, ein man cychwyn bob amser ddylai cydnabod eu gwerth, eu gwybodaeth, eu harbenigedd a'r cyfraniad maent yn ei wneud mewn cymaint o wahanol ffyrdd. Mewn cyfnod o gyni ariannol, mae cyfalaf cymdeithasol ein pobl hŷn yn adnodd na allwn fforddio i beidio ei gydnabod na buddsoddi ynddo.

"Mewn cyfnod o gyni ariannol, mae cyfalaf cymdeithasol ein pobl hŷn yn adnodd na allwn fforddio i beidio ei gydnabod na buddsoddi ynddo."

Mae pobl hŷn eisiau, ac mae ganddynt hawl i gael eu cynnwys yn llawn mewn cymdeithas, bod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, cyfranogi a chyfrannu wrth i wasanaethau newydd gael eu cynllunio a'u datblygu. Nid yw'r pethau sy'n bwysig i lawer o bobl hŷn yn ddim gwahanol i'r pethau sy'n bwysig i lawer ohonom ni: y teimlad ein bod yn cael ein gwerthfawrogi, yn gallu gwneud y pethau rydym yn eu mwynhau, yn teimlo'n ddiogel a byw mewn mannau sy'n addas ar gyfer y bywydau rydym yn eu byw.

Ond yn rhy aml, mae pobl hŷn yn cael eu cau allan o gymdeithas, yn cael eu portreadu fel grŵp ar wahân gyda delweddau negyddol sy'n atgyfnerthu rhagdybiaethau ffug o eiddilwch, dirywiad a dibyniaeth. Dyna pam wnes i lansio fy Ymgyrch Dweud Na i Oedraniaeth y llynedd – i herio'r stereoteipiau sy'n gysylltiedig â heneiddio ac i dynnu sylw at yr oedraniaeth systematig ym mhob rhan o gymdeithas y mae pobl yn gorfod ei wynebu mor aml wrth heneiddio, sy'n ymrannol, yn nawddoglyd ac yn niweidiol, i bobl hŷn ac i gymdeithas yn gyffredinol.

I'r rhan fwyaf ohonom, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, ein pobl hŷn yw ein harwyr pob dydd ac fel cenedl rhaid i ni ailedrych ar sut yr ydym yn meddwl am oed a heneiddio, ac mae hynny'n hanfodol os yw pobl hŷn am gael cydraddoldeb a pharedd â grwpiau oedran eraill.

Mae gan bobl hŷn hawl i gael eu gweld fel unigolion ac i gael hawliau gwirioneddol y gallant eu defnyddio neu a

all gael eu cadarnhau ar eu rhan. Rwyf wedi galw'n gryf ar Lywodraeth nesaf Cymru i weithredu i gryfhau hawliau pobl hŷn, i'w grymuso a sicrhau nad yw eu lleisiau'n cael eu diystyru na'u hanwybyddu. Byddaf yn dal ati i weithio'n galed nes bydd hyn wedi'i wireddu, nes bydd hawliau pobl hŷn ledled Cymru'n cael eu diogelu a'u hyrwyddo.

Gyda phartneriaid, buom yn gweithio ar draws Cymru hefyd fel rhan o'r Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru, rhaglen a sefydlwyd gennyf fi ac sy'n cael ei rhedeg gan fy swyddfa, i wella llesiant pobl hŷn yn ein cymunedau ac roeddwn yn falch dros ben bod pob Awdurdod Lleol wedi cyhoeddi cynllun Heneiddio'n Dda ar gyfer ei ardal am y tro cyntaf yn ystod 2015-16.

Rwyf wedi gweithio hefyd i hybu newid mewn meysydd lle bu tueddiad i anghofio anghenion pobl hŷn, meysydd lle mae dulliau gweithredu'n aneffeithiol, lle mae'r un dull yn gorfod gwneud y tro i bawb. Mae cam-drin domestig yn un maes o'r fath. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi gweithio'n galed â phartneriaid ledled Cymru i gynyddu gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer da i sicrhau bod y 40,000 o bobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig, gyda llawer ohonynt wedi bod yn profi'r gamdriniaeth hon am flynyddoedd, yn cael eu hamddiffyn a'u cynorthwyo'n well. Rwyf hefyd wedi sefydlu Partneriaeth Cymru yn Erbyn Sgamiau ac roeddwn yn falch o weld ei siarter a'i chynllun gweithredu'n cael ei lansio, sy'n amlinellu ystod eang o waith a fydd yn cael ei wneud yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector i fynd i'r afael â sgamiau o bob math.

Mae pobl hŷn wedi bod yn bendant iawn am bwysigrwydd canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n berthnasol i'w llesiant ac ansawdd eu bywyd ac mae'n hanfodol, fel yr amlinellwyd yn fy mlaenoriaethau cyhoeddedig, bod llesiant pobl hŷn yn cael ei osod wrth galon gwasanaethau i bobl hŷn. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn ogystal â'r Byrddau Iechyd Cyhoeddus a'r Cynlluniau Llesiant cysylltiedig, yn gyfle i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus a bywydau pobl yng Nghymru, ond rhaid gwneud yn siŵr nad oes neb yn cael eu gadael ar ôl. Rhaid i'r dyheadau sydd wrth wraidd y Ddeddf ymestyn i gynnwys y sawl sy'n byw mewn cartrefi gofal, y rhai sydd wedi'u

**"Ein pobl hŷn yw ein harwyr pob dydd ac fel cenedl rhaid i ni ailedrych ar sut yr ydym yn meddwl am oed a heneiddio."**


**"Rwyf wedi gweithio hefyd i hybu newid mewn meysydd lle bu tueddiad i anghofio anghenion pobl hŷn... Mae cam-drin domestig yn un maes o'r fath."**

hynysu, y sawl sy’n canfod eu hunain mewn sefyllfaoedd bregus a phobl sy’n byw â dementia.

Felly, cyhoeddais fy adroddiad ‘Dementia: mwy na dim ond colli’r cof’ y llynedd, lle mae pobl sy’n byw â dementia’n datgan yn eglur beth y mae angen ei wella. Rwyf yn disgwyl y bydd eu barn yn cael sylw gofalus ac y bydd yn cael ei adlewyrchu yn y gwaith a fydd yn cael ei wneud mewn gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

Fel cenedl o bobl hŷn, yr allweddeiriau y dylem eu cadw mewn cof yw cynhwysiant a chydraddoldeb, cyfranogiad llawn, sicrhau bod gan fywydau pobl werth, ystyr a phwrpas. O bryd i’w gilydd, bydd pobl hŷn angen i’r rhai ohonom sydd mewn gwasanaethau cyhoeddus fod yno i’w cynorthwyo a’u cefnogi a dylem ymdrechu bob amser i wella’r hyn rydym yn ei wneud a sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu gweld fel partneriaid ym mhopeth rydym yn ei wneud.

Yn syml, ni ddylem byth anghofio ein bod yn ffodus i fod yn genedl o bobl hŷn a’u bod, o ganlyniad i’r hyn maent wedi’i wneud ac yn parhau i’w wneud i ni, yn grŵp a ddylai gael ei edmygu, ei barchu ac a ddylai gael ei weld fel ased cenedlaethol.



**Sarah Rochira**
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

**“Yr allweddeiriau y dylem eu cadw mewn cof yw cynhwysiant a chydraddoldeb, cyfranogiad llawn, sicrhau bod gan fywydau pobl werth, ystyr a phwrpas.”**

# Ymgysylltu a gwrando ar bobl hŷn ar draws Cymru

Rhan allweddol o fy ngwaith o hyd yw ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl hŷn ar draws Cymru, ac mae hynny'n allweddol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o fy ngwaith a'r ffyrdd y gallaf eu helpu. Mae'r ymgysylltu hwn hefyd yn sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn arwain a siapio fy ngwaith fel comisiynydd a'u bod yn parhau i fod yn rhan ganolog o bopeth yr wyf yn ei wneud.

## Sioe Ymgysylltu Deithiol

Bu i fy nhîm a finnau gyfarfod â 218 o grwpiau ar draws Cymru yn ystod 2015-16 gan ymgysylltu â dros 5,600 o bobl hŷn mewn amrywiaeth eang o ddigwyddiadau, yn cynnwys cynadleddau, cyfarfodydd fforymau, grwpiau cymorth a grwpiau cymdeithasol. Bu i fy Sioe Ymgysylltu Deithiol ymweld â phob Awdurdod Lleol yng Nghymru, a bu i fy nhîm a finnau deithio dros 20,000 o filltiroedd er mwyn ymgysylltu â phobl hŷn.

Gan adeiladu ar y dulliau llwyddiannus a ddefnyddiwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol er mwyn ymgysylltu â phobl hŷn amrywiol, bu i fy Sioe Ymgysylltu Deithiol barhau i ymweld â'r mannau y mae pobl hŷn yn byw eu bywydau, yn cynnwys clybiau cymdeithasol, canolfannau dydd, grwpiau gofalwyr, caffis dementia, cartrefi gofal a chynlluniau tai gofal ychwanegol.

Hefyd bu i fy nhîm fynychu dyddiau gwybodaeth a digwyddiadau cymunedol ar draws Cymru, gan ofalu am stondinau gwybodaeth er mwyn darparu gwybodaeth, cyngor ac adnoddau defnyddiol yn uniongyrchol i bobl hŷn a rhai sy'n gofalu amdanynt ac sy'n rhoi cymorth iddynt.

Eleni, bu hyd yn oed mwy o ffocws ar ymgysylltu a phobl hŷn â nodweddion gwarchodedig a gwrando ar leisiau'r rhai na chlywir yn aml, ac mae hynny'n hanfodol er mwyn sicrhau bod eu profiadau o dyfu'n hŷn yng Nghymru yn cael eu hadlewyrchu yn fy ngwaith drwyddo draw. Er mwyn cefnogi hyn, rwyf wedi gweithio ag amrywiaeth o sefydliadau sy'n cefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig, yn cynnwys Race Equality First, Women Connect First, Swansea Sparkles, Sense, DeafBlind Cymru, y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd (Abertawe), y Ganolfan Indiaidd (Caerdydd) a Men's Sheds.

Er mwyn sicrhau bod llunwyr polisïau a rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn clywed drostynt eu hunain am brofiadau pobl hŷn ac yn deall yr heriau sy'n eu hwynebu, bu i mi drefnu nifer o ymweliadau ar y cyd ag Aelodau

Cynulliad, ASau, Arweinwyr Cynghorau a Chynghorwyr ar draws Cymru, gan roi cyfleoedd i bobl hŷn drafod y materion sy'n bwysig iddyn nhw ac awgrymu ffyrdd o ddarparu gwelliannau.

## Ymgysylltu Ehangach

Yn ychwanegol at fy Sioe Ymgysylltu Deithiol, rwyf wedi parhau i weithio â sefydliadau ffurfiol sy'n cynrychioli pobl hŷn, megis y Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol, Cymru Egnïol (Cymdeithas Pensiynwyr Oedrannus Cenedlaethol Cymru gynt), Cynghrair Pobl Hŷn Cymru a'r Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol, yn ogystal â fforymau pobl hŷn ar draws Cymru.

Drwy gydol 2015-16, bu i mi hefyd barhau i weithio â chyrff cyhoeddus yng Nghymru, yn cynnwys Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, Byrddau Gwasanaethau Lleol, Swyddfa Archwilio Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Safonau Masnach, yn ogystal ag ystod eang o sefydliadau'r trydydd sector megis Cynghrair Henoed Cymru, Age Cymru, Cymdeithas Alzheimer, Diverse Cymru, RNIB Cymru a Sefydliad Joseph Rowntree, gan areithio mewn cynadleddau a digwyddiadau, a chyfarfod ag unigolion sy'n rhan o'r sefydliadau hyn.

Mae'r gwaith hwn yn allweddol er mwyn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth am brofiadau pobl hŷn, yr heriau sy'n eu hwynebu a'r materion sy'n effeithio ar eu bywydau. Hefyd, mae'n caniatáu i mi hyrwyddo arferion da, a chanfod cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni nodau ac amcanion a rennir er mwyn gwella bywydau pobl hŷn ac ysgogi newid ar eu rhan.

## Y Cyfryngau

Mae gweithio gyda'r cyfryngau yn ystod y flwyddyn nid yn unig wedi fy ngalluogi i ymgysylltu â nifer fawr o bobl hŷn fel eu bod yn gwybod am y gwaith yr wyf yn ei wneud er mwyn ysgogi newid ar eu rhan a gwneud gwahaniaeth i'w bywydau, ond mae hefyd yn sicrhau bod y cyhoedd yn ehangach yn cael eu hysbysu am y materion sy'n effeithio ar bobl hŷn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu i mi gynnal presenoldeb amlwg ar deledu a radio, gan ymddangos nifer o weithiau ar BBC Wales Today, newyddion ITV Wales, Newyddion S4C, BBC Radio Wales a BBC Radio Cymru.

Bu i mi hefyd weithio i sicrhau sylw sylweddol mewn papurau newydd dyddiol, megis y  Western Mail, Daily Post, South Wales Argus, South Wales Evening Post a South Wales Echo, yn ogystal â phapurau newydd lleol wythnosol

ar draws Cymru. Hefyd, bu i sylwadau a roddais ar nifer o faterion gael eu cynnwys mewn straeon mewn papurau newydd cenedlaethol y DU, yn cynnwys The Independent a'r Daily Mail.

Rwyf hefyd wedi parhau i ysgrifennu colofnau ac erthyglau ar gyfer amrywiaeth o gyhoeddiadau eraill, megis cylchgronau, cyfnodolion, blogiau, a chyhoeddiadau Cymraeg er mwyn sicrhau fy mod yn parhau i ymgysylltu â phobl hŷn a rhanddeiliaid ar draws Cymru.

## Cydnabod Profiad

Mae hyrwyddo arferion da sy'n effeithio'n gadarnhaol ar fywydau pobl hŷn yn rhan allweddol o fy ngwaith fel comisiynydd, ac rwyf wedi cyfarfod â nifer o aelodau staff arbennig sy'n gweithio i wasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru sy'n ymrwymedig i wneud gwahaniaeth go iawn drwy eu gwaith.

Er mwyn sicrhau bod yr arferion gorau hyn yn cael eu cydnabod yn ffurfiol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, bu i mi noddi Gwobrau Nyrs y Flwyddyn Cymru y Coleg Nyrsio Brenhinol a Gwobrau Gofal Cymru, sy'n cael eu trefnu gan Fforwm Gofal Cymru, gan gydnabod y cyfraniad amhrisiadwy a wneir gan unigolion arbennig a dathlu nid yn unig eu hymrwymiad i wella bywydau pobl hŷn, ond hefyd eu hangerdd, eu gwaith caled a'u harloesedd.

Rwyf hefyd wedi gweithio ag Arfer Da Cymru drwy gydol 2015-16, gan rannu arferion da ac arloesedd y mae fy nhîm a finnau wedi ei weld â'n llygaid ein hunain ar draws Cymru drwy Wefan Canolfan Wybodaeth Arfer Da Cymru.

.

## Tîm Gwaith Achos

Drwy gydol 2015-16, mae fy nhîm Gwaith Achos wedi rhoi cymorth uniongyrchol, eiriolaeth a chefnogaeth i bobl hŷn a'u teuluoedd ar draws Cymru, yn unol â fy mhwerau cyfreithiol o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, gan ymyrryd mewn achosion pan fo angen cymorth er mwyn herio penderfyniadau ac arferion cyrff cyhoeddus.

Mae nifer o'r bobl hŷn sy'n cysylltu â mi yn teimlo nad oes ganddynt lais na phŵer, a bod eu hawl i wneud dewisiadau ynglŷn â'r pethau sy'n effeithio ar eu bywydau wedi cael ei gymryd oddi wrthynt. Yn aml mae pobl sy'n cysylltu â fy Nhîm Gwaith Achos yn teimlo'n rhwystredig nad yw'r camau sydd angen eu cymryd er mwyn datrys eu problemau yn cael eu cymryd, a'i bod yn ymddangos nad yw cyrff cyhoeddus yn ystyried bod eu pryderon a'u safbwyntiau yn berthnasol.

Yn ystod 2015-16, bu i fy Nhîm Gwaith Achos roi cymorth a chefnogaeth i 413 o bobl hŷn. Roedd nifer o'r achosion y bu i'r tîm ddelio â hwy yn gymhleth iawn ac yn golygu delio ag asiantaethau lluosog er mwyn datrys ystod eang o faterion.

Y pum pwnc y cysylltwyd â fy nhîm amlaf mewn perthynas â hwy oedd:

| Pwnc | Nifer yr Ymholiadau | Canran o'r cyfanswm |
|---|---|---|
| Gofal | 37 | 8.9 |
| Gofal Preswyl | 35 | 8.5 |
| Tai | 35 | 8.5 |
| Ariannol | 27 | 6.5 |
| Iechyd | 27 | 6.5 |

Ymysg y pynciau hyn, ymddangosodd nifer o themâu, sy'n awgrymu bod nifer o faterion allweddol yn effeithio ar bobl hŷn a'u teuluoedd ar draws Cymru:

- Talu am ofal / costau gofal
- Proses cael mynediad i gyllid gofal iechyd parhaus
- Effaith cau cyfleusterau a gwasanaethau
- Arferion gofal a rheolaethol mewn cartrefi gofal a chartrefi nyrsio
- Newidiadau i ddarpariaeth tai lloches

Mae fy ngwaith achos yn darparu gwybodaeth allweddol ynglŷn â phrofiadau pobl hŷn ar draws Cymru. Pan fo mater yn cael ei godi sydd â pherthnasedd ehangach i bobl hŷn, gall fy nhîm a finnau wneud gwaith ychwanegol mwy strategol er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â'r mater.

Isod ceir detholiad o ddyfyniadau gan bobl hŷn a'u teuluoedd yr wyf wedi eu cefnogi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Maent yn amlygu'r gwahaniaeth mae fy nhîm yn ei wneud i fywydau pobl hŷn, yn aml mewn achosion pan fu i eraill fethu â datrys materion neu sicrhau'r canlyniad angenrheidiol.

**"Rwyf yn hapus iawn â'r help yr ydych wedi ei roi i mi. Rwyf yn teimlo'n ddiogel nawr oherwydd bod rhywun fel chi ar gael i'n helpu. Diolch am eich help."**

**"Rwyf yn dal yn credu y gallwch daclo unrhyw broblem, mawr neu fach, ac rydych yn dyfalbarhau nes ei bod yn cael ei datrys."**

**"Yr achos hwn yw'r unig enghraifft o gymorth yn cael ei gynnig i rywun ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghaerdydd. Mae gweld y gymuned hon sy'n agored i niwed - ac sydd hyd yn oed yn fwy agored i niwed yn eu henaint - yn cael gwasanaeth o safon, yn chwa o awyr iach. Mae'r cymorth wedi gwneud gwahaniaeth anferth i safon bywyd Mrs A, i'w chyfforddusrwydd a'i diogelwch personol."**

**"Mae'n rhoi pleser mawr i mi allu rhoi adborth cadarnhaol i rywun o'r diwedd. Roeddwn mewn cyfyng gyngor ac wedi dod i ben fy nhennynyn, ond nawr mae pethau'n symud yn gyflymach ac rwy'n cael y wybodaeth sydd ei hangen arnaf."**

**"Mae hwn yn wasanaeth amhrisiadwy i mi ar adeg anodd iawn. Roedd y cymorth a'r gefnogaeth a gefais yn rhagorol. Llawer o ddiolch."**

**"Pe na bai gennym Gomisiynydd Pobl Hŷn, rwy'n teimlo y byddai pob un ohonom mewn lle drwg, ac unman i droi iddo. Felly diolch yn fawr iawn i chi a bendith Duw arnoch."**

**"Hoffwn bwysleisio fy niolchgarwch i fy ngweithiwr achos. Roedd y gefnogaeth drwy gydol yr amser yn amhrisiadwy - roeddwn yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf drwy'r amser. Roeddwn yn teimlo yn unig iawn yn ystod y broses hon, ond roedd gwybod eich bod yn fy nghefnogi yn fy nghadw i fynd drwy'r adegau anodd. Roedd yn hawdd siarad â fy ngweithiwr achos, ac roedd yn gwrando ar beth oedd gennyf i'w ddweud. Diolch."**

# Creu Newid i Bobl Hŷn

## Dementia: mwy na dim ond colli'r cof

Mae nifer o'r bobl hŷn sy'n byw â dementia yr wyf wedi eu cyfarfod neu wedi eu cefnogi drwy fy nhîm gwaith achos wedi rhannu eu pryderon gyda mi ynglŷn â'r ffaith nad ydynt yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau, cefnogaeth, gwybodaeth a'r cyngor allai wneud gwahaniaeth mawr i'w bywydau.

Felly, bu i mi gomisiynu Age Cymru i gynnal ymchwil ar fy rhan er mwyn casglu lleisiau a phrofiadau pobl hŷn sy'n byw â dementia a'r rhai sy'n gofalu amdanynt, a chasglwyd hynny drwy gynnal cyfweliadau unigol a sesiynau grŵp ffocws ar draws Cymru.

Roedd yr ymchwil hwn yn sylfaen i fy adroddiad 'Dementia: mwy na dim ond colli'r cof', a gyhoeddwyd ym Mawrth 2016. Bu i'r ymchwil ddangos bod yna ddiffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o hyd ynghylch dementia, ymysg pobl broffesiynol a'r gymuned ehangach, ac yn aml nad oes gan wasanaethau dementia yr hyblygrwydd i fodloni anghenion pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr yn effeithiol. Hefyd, bu i'r ymchwil ddangos bod diffyg cydweithredu rhwng gwasanaethau yn creu anawsterau a rhwystrau diangen, a bod yna amrywiadau arwyddocaol o hyd ar draws Cymru o ran ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael.

Fel rhan o'r adroddiad, nodais nifer o gamau y mae angen eu cyflawni er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr ymchwil, yn cynnwys gwaith i sicrhau bod gwasanaethau gofal sylfaenol yn fwy cefnogol i ddementia a bod eu harferion gweithio'n adlewyrchu anghenion pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr; hyfforddiant i staff er mwyn sicrhau bod ganddynt ddigon o wybodaeth a dealltwriaeth er mwyn gallu ymateb i anghenion person sy'n byw â dementia mewn modd priodol a sensitif sy'n gwarchod eu hurddas a'u hunan-barch ac sy'n lleihau trallod; a mwy o gymorth ôl-ddiagnosis, yn cynnwys un pwynt cyswllt er mwyn darparu gwybodaeth a chyngor ar y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael y gellir cael mynediad atynt pryd bynnag fo angen hynny.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, a groesawyd gan Lywodraeth Cymru a'r Gymdeithas Alzheimer, bu i mi ysgrifennu at arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru er mwyn ceisio sicrwydd y byddant yn cyflawni'r newid sydd ei angen ar ran pobl sy'n byw â dementia a'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

Mae rhaglen o waith dilynol yn cael ei chynllunio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gwireddu eu hymrwymiadau ac yn cyflawni'r newid y mae pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr eisiau ac angen ei weld.

## Adolygiad o Gartrefi Gofal

Cyhoeddwyd fy Adolygiad o Gartrefi Gofal, 'Lle i'w Alw'n Gartref?' ym mis Tachwedd 2014, yn dilyn cynnal yr Adolygiad mwyaf o'i fath erioed yng Nghymru, a edrychodd ar safon bywyd a'r gofal a roddwyd i bobl hŷn oedd yn byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Bu i fy adolygiad ganfod bod gan ormod o bobl oedd yn byw mewn cartrefi gofal safon byw nad oedd yn dderbyniol.

Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys cyfres o argymhellion gweithredu i gyrff cyhoeddus a darparwyr cartrefi gofal fyddai'n cyflawni'r newid angenrheidiol er mwyn sicrhau bod safon bywyd yn rhan ganolog o ofal preswyl a gofal nyrsio yng Nghymru.

Fel rhan o'r broses adolygu, bu i'r cyrff statudol oedd yn destun y gofynion gweithredu gyflwyno cynlluniau gweithredu i mi yn ystod Gwanwyn 2015, gan nodi eu hymrwymiadau i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol mewn cartrefi gofal ar draws y system cartrefi gofal ehangach yng Nghymru.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion hyn, roeddwn yn chwilio am sicrwydd y byddai camau yn cael eu cymryd er mwyn cyflawni'r newid angenrheidiol a'r deilliannau i bobl hŷn a nodwyd yn fy adroddiad ar yr Adolygiad.

Roedd yr ymatebion gan Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol yn arbennig o gryf, yn nodi'n glir sut y byddant yn cyflawni'r deilliannau yr wyf yn eu disgwyl ar gyfer pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal ac yn manylu ar ystod eang o waith arloesol fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i safon bywyd trigolion cartrefi gofal ar draws Cymru.

Fodd bynnag, nid oedd yr hyn a gyflwynwyd ar y cychwyn gan Lywodraeth Cymru ac AGGCC yn rhoi i mi'r sicrwydd yr oeddwn ei angen y byddai camau yn cael eu cymryd ar lefel strategol er mwyn sicrhau y byddai pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn cael y safon bywyd gorau posibl, rhywbeth yr oeddwn wedi ei wneud yn glir yn fy natganiad ynghylch y cynnydd a wnaethpwyd ers cyhoeddi fy adroddiad ar yr Adolygiad ym mis Awst 2015.

Felly, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ac AGGCC gyflwyno mwy o dystiolaeth ysgrifenedig i mi oedd yn nodi sut y byddent yn cyflawni'r deilliannau a nodwyd yn fy adroddiad ar yr Adolygiad.

Bu i'r wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd i mi roi'r sicrwydd oedd ei angen arnaf y byddai'r camau angenrheidiol yn cael eu cymryd, ac rwyf yn cyfarfod yn rheolaidd â Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a swyddogion allweddol eraill er mwyn monitro cynnydd yn erbyn cynlluniau cyflawni.

## Seminarau Darparwyr Cartref Gofal

Wrth gynnal fy Arolwg, bu i mi ganfod enghreifftiau rhagorol o ofal oedd yn wirioneddol yn canolbwyntio ar yr unigolyn, gofal sy'n galluogi a grymuso sy'n darparu'r deilliannau gorau posibl i bobl hŷn.

Drwy gydol fy ymgysylltu â darparwyr cartrefi gofal yn ystod y broses Adolygu, roedd yn amlwg y buasent yn croesawu cyfleoedd i ddysgu mwy am yr arferion da a amlygwyd yn fy adroddiad a'r pethau ymarferol y gallent ei wneud er mwyn gwella bywydau eu preswylwyr.

Felly bu i mi drefnu cyfres o seminarau mewn lleoliadau ar draws Cymru, a ddarparwyd mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol sy'n gweithio i wella gofal preswyl a nyrsio, ar gyfer rhannu arferion da ac archwilio dulliau newydd ac arloesol o ddarparu gofal.

Hyd yma, mae dros 300 o gyfranogwyr wedi cymryd rhan yn y seminarau, sydd wedi canolbwyntio ar y themâu/pynciau canlynol:

- Ymgysylltu'n llawn â phreswylwyr er mwyn codi safonau (mewn partneriaeth â My Home Life Cymru)
- Deall dementia: dysgu ar y cyd ac arferion gorau (mewn partneriaeth â Chyngor Gofal Cymru)
- Creu amgylcheddau croesawgar i breswylwyr a theuluoedd (mewn partneriaeth â Fforwm Gofal Cymru)
- Adegau hudolus mewn cartrefi gofal a sut i wneud iddynt ddigwydd (mewn partneriaeth â Sefydliad Joseph Rowntree)
- Cael y gorau o'r profiadau bwyta mewn cartrefi gofal (mewn partneriaeth â My Home Life Cymru)

Mae mwy o seminarau yn cael eu cynllunio drwy gydol 2016-17 er mwyn darparu mwy o gyfleoedd i rannu arferion da gyda darparwyr cartrefi gofal ar draws Cymru.

## Defnyddio meddyginiaeth mewn Cartrefi Gofal

Un o'r materion a nodwyd yn fy Adolygiad oedd rhagnodi meddyginiaeth gwrthseicotig yn amhriodol i breswylwyr cartrefi gofal, yn aml mewn achosion pryd y gallai dulliau anfferyllol arwain at well deilliannau i unigolion.

Felly rwyf wedi bod yn gweithio gyda'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol er mwyn rhoi cymorth iddynt wrth ddatblygu eu polisi ar gyfer cartrefi gofal - Gwella'r Defnydd o Feddyginiaethau ar gyfer Preswylwyr Cartrefi Gofal. Mae'r polisi yn defnyddio tystiolaeth o fy Adolygiad fel sylfaen ar gyfer ei bum argymhelliad.

O ganlyniad i'r gweithio hwn mewn partneriaeth, erbyn hyn mae dau Fwrdd Iechyd yng Nghymru yn cyflogi fferyllwyr cymunedol mewn cartrefi gofal er mwyn adolygu meddyginiaeth preswylwyr a rhoi cymorth i staff cartrefi gofal ddilyn arferion da o ran gweinyddu meddyginiaeth, gan leihau polifferylliaeth a'r defnydd o feddyginiaeth gwrthseicotig. Wrth symud ymlaen, rwyf yn disgwyl y bydd dulliau tebyg yn cael eu mabwysiadu gan Fyrddau Iechyd eraill er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei ragnodi'n briodol i bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal ar draws Cymru.

## Adolygiad Dilynol

Pan gyhoeddais fy adroddiad Arolwg, nodais y byddwn yn cynnal Adolygiad dilynol er mwyn sicrhau bod y camau yr addawodd cyrff cyhoeddus a darparwyr cartrefi gofal y byddent yn eu cymryd ar waith ac y bydd y deilliannau i bobl hŷn yn cael eu cyflawni. Bydd lleisiau pobl hŷn, unwaith eto, yn rhan ganolog o'r Adolygiad hwn.

Bwriedir i'r Adolygiad dilynol hwn gychwyn ym mis Chwefror 2017, a byddaf yn fuan yn cyhoeddi datganiad fydd yn nodi mwy o fanylion am fy null arfaethedig a'r meysydd y byddaf yn canolbwyntio arnynt.

# Taclo Oedraniaeth

## Ymgyrch Dweud Na i Oedraniaeth

Yn aml mae pobl hŷn ar draws Cymru yn rhannu gyda mi eu profiadau o gael eu trin yn anffafriol oherwydd eu hoedran, a sut mae hyn yn tanseilio eu hunan werth, hunanhyder a'u safon bywyd. Yn rhy aml, mae pobl ar draws Cymru yn cael eu trin fel dinasyddion eilradd, ac yn syml nid yw hynny'n dderbyniol.

Er mwyn herio'r stereoteipiau sy'n gysylltiedig â thyfu'n hŷn ac er mwyn newid y ffordd y mae cymdeithas yn meddwl am bobl hŷn, bu i mi lansio fy Ymgyrch

‘Dweud Na Wrth Oedraniaeth’ ar Ddiwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn 2015 (Hydref 1), a amlygodd nid yn unig effaith oedraniaeth ar bobl hŷn, ond hefyd y cyfraniad sylweddol y mae pobl hŷn yn ei wneud i gymunedau ar draws Cymru, sydd yn werth £1bn i’r economi bob blwyddyn.

Roedd yr ymgyrch yn cynnwys nifer o linynnau, oedd yn cynnwys fideo oedd yn herio’r mythau ynglŷn â phobl hŷn, gwefan o adnoddau defnyddiol ac oriel luniau ryngweithiol o ‘Arwyr Bob Dydd’ - pobl hŷn yn amlygu’r pethau maent yn eu gwneud sy’n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl neu gymunedau ond sy’n aml yn cael eu diystyru, megis gwirfoddoli neu ofalu.

Cafodd y fideo ei rhannu yn eang gan randdeiliaid a hyd yma fe’i gwyliwyd dros 2,000 o weithiau. Mae’r fideo hefyd wedi cael ei dangos mewn ystod eang o gynadleddau a seminarau, ac fe’i defnyddir fel rhan o fy nghyrsiau hyfforddi taclo oedraniaeth (gweler isod).

Roedd defnyddio cyfryngau cymdeithasol i rannu’r neges yn llwyddiannus iawn, gyda thrydaron a bostiwyd ar y diwrnod gan fy swyddfa yn cael eu gweld dros 16,000 o weithiau. Roedd neges ymgyrch Thunderclap (defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yn cofrestru i rannu neges ar yr un pryd) yn effeithiol iawn hefyd, gyda chyrhaeddiad posibl o tua 180,000 o bobl.

Hefyd, bu i nifer o sefydliadau, rhanddeiliaid a gwleidyddion ar draws Cymru rannu eu trydaron a’u lluniau eu hunain er mwyn dangos eu cefnogaeth i’r ymgyrch a lledaenu ei negeseuon allweddol - Dweud Na Wrth Oedraniaeth.

Hefyd gosodwyd datganiad o farn gerbron y Cynulliad Cenedlaethol gan Gwenda Thomas AC yn datgan cefnogaeth i’r ymgyrch, a lofnodwyd gan 17 aelod ar draws pob plaid.

## Pecyn Gweithredu yn Erbyn Oedraniaeth

Fel rhan o’r ymgyrch, bu i mi hefyd ddatblygu’r pecyn ‘Gweithredu yn Erbyn Oedraniaeth’ i bobl hŷn er mwyn eu grymuso i herio oedraniaeth yn ei wahanol ffurfiau.

Mae’r pecyn, sydd wedi cael ei ddosbarthu yn eang i bobl hŷn ar draws Cymru, yn darparu gwybodaeth a chyngor ymarferol ynglŷn â sut i adnabod oedraniaeth - yn y gwaith, ar y cyfryngau, mewn gwasanaethau iechyd a gofal, ac mewn gwasanaethau defnyddwyr - ac mae’n nodi’n eglur y ffyrdd y gall pobl hŷn herio triniaeth annheg a gwahaniaethu.

## Hyfforddiant Taclo Oedraniaeth

Agwedd allweddol arall o fy ymgyrch yn erbyn oedraniaeth oedd cwrs hyfforddi a ddatblygwyd ar gyfer pobl broffesiynol sy’n gweithio ar ran pobl hŷn, yn arbennig y rhai sy’n gyfrifol am ddyluniad a darparu gwasanaethau.

Mae’r cwrs hyfforddi yn helpu cyfranogwyr i ddeall oedraniaeth ac effaith hynny ar bobl hŷn, tra hefyd yn archwilio rhagfarnau diarwybod a’r ffyrdd y gall hynny effeithio ar ddyluniad gwasanaethau cyhoeddus a sut maent yn cael eu darparu. Hefyd, mae’r hyfforddiant yn dangos pwysigrwydd mabwysiadu dull seiliedig ar hawliau o ddarparu gwasanaethau a sut y gall hynny arwain at well deilliannau i bobl hŷn.

Bu i 187 o bobl broffesiynol gymryd rhan yn yr hyfforddiant yn ystod 2015-16, o sefydliadau yn cynnwys Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Cymdeithasau Tai a Sefydliadau Gofalwyr. Mae adborth ar yr hyfforddiant wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda chyfranogwyr yn ymrwymo i ddefnyddio’r hyn maent wedi ei ddysgu o’u gwaith a herio arferion gwahaniaethol yn eu sefydliadau.

Hefyd datblygwyd cwrs hyfforddi tebyg ar gyfer pobl hŷn, ac fe’i cyflwynwyd yn gyffredinol i grwpiau ar draws Cymru. Mae’r fersiwn hon o’r hyfforddiant yn ystyried y materion a amlygir yn y pecyn mewn mwy o fanylder, gan helpu pobl hŷn i adnabod pryd maent yn dioddef oedraniaeth a sut y gallant herio arferion sy’n oedraniaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus. Cynhaliwyd 10 o’r sesiynau hyfforddi yma ar draws Cymru ac mae 199 o bobl hŷn wedi cymryd rhan hyd yma.

Bwriedir cynnal mwy o sesiynau hyfforddi ar gyfer pobl broffesiynol a phobl hŷn yn ystod 2016-17.

Yn ystod 2015-16, bu i mi hefyd weithio â Chanolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol er mwyn datblygu modiwl hyfforddi ar-lein ar gyfer staff y GIG yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys nifer o themâu’r hyfforddiant a roddir i’r bobl broffesiynol a ddisgrifir uchod, ond mae hefyd yn canolbwyntio mwy ar hawliau dynol a sut y gellir defnyddio dull seiliedig ar hawliau yn y gwasanaeth iechyd er mwyn cyflawni gwelliannau i bobl hŷn.

# Ansawdd a Diogelwch Gwasanaethau Gofal Iechyd

Mae sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd ar draws Cymru o'r safon uchaf a'u bod yn bodloni anghenion pobl hŷn yn parhau i fod yn rhan allweddol o fy ngwaith fel Comisiynydd. Yn ychwanegol at ddarparu cefnogaeth i unigolion sy'n derbyn safon gofal annerbyniol, rwyf hefyd yn ymgysylltu'n helaeth â Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru, gan nodi fy nisgwyliadau ar ran pobl hŷn mewn perthynas ag ansawdd, craffu a llywodraethu.

## Datganiadau Ansawdd Blynyddol

Bob blwyddyn, mae Byrddau Iechyd yng Nghymru yn cyhoeddi Datganiadau Ansawdd Blynyddol er mwyn darparu sicrwydd i'r cyhoedd ynghylch safon y gofal maent yn ei ddarparu. Dyluniwyd y datganiadau hyn i sicrhau bod Byrddau Iechyd yn bod yn agored a thryloyw ynglŷn â'u safonau gofal a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Ym mis Chwefror 2016, bu i mi gyhoeddi sylwadau ar Ddatganiadau Ansawdd Blynyddol Byrddau Iechyd, gan adeiladu ar waith craffu tebyg a wnaethpwyd yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Wrth baratoi fy sylwadau, bu i mi ystyried i ba raddau yr oedd y dogfennau yma'n cyfathrebu'n llwyddiannus â phobl hŷn ac yn rhoi sicrwydd iddynt.

Er bod lle o hyd i welliant parhaus a mwy o eglurder, mae'n amlwg y bu newid cadarnhaol a bod adborth a ddarparwyd gan Fyrddau Iechyd ar eu Datganiadau Ansawdd Blynyddol 2013-14 wedi cael ei ddefnyddio mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol.

Yn fy sylwadau, bu i mi groesawu'r ffaith bod nifer o Ddatganiadau Ansawdd Blynyddol yn cyfeirio at ymrwymiad gan Fyrddau Iechyd i wella adrodd yn seiliedig ar ddeilliannau mewn cyfarfodydd Bwrdd ac yn y datganiadau eu hunain mewn perthynas â materion megis ymataliaeth, hydradiad a chwympiadau.

Hefyd, roeddwn yn croesawu'r ffaith bod canllawiau Llywodraeth Cymru (drwy gyfrwng Cylchlythyr Iechyd Cymru) ar Ddatganiadau Ansawdd Blynyddol 2015-16 nawr yn cynnwys cyfeiriadau at y disgwyliadau a nodwyd gennyf yn fy adborth i Fyrddau Iechyd a'r trafodaethau parhaus dilynol yr wyf wedi eu cynnal gyda hwy mewn perthynas â'r mater hwn.

## Adrodd ar Sail Deilliannau

Ar ddiwedd 2014-15, bu i mi ysgrifennu at bob Bwrdd Iechyd yn amlinellu fy nisgwyliadau mewn perthynas â gwell tryloywder ac atebolrwydd fel ffordd o wella safon profiadau a gofal iechyd pobl hŷn. Bu i mi nodi 12 maes allweddol

yr oedd angen eu gwella mewn perthynas ag adrodd ar ddeilliannau.

Yn dilyn hynny bu i mi gynnal cyfarfod bwrdd gron gyda chynrychiolwyr allweddol o'r Byrddau Iechyd, yn cynnwys Cadeiryddion a Chyfarwyddwyr Nyrsio, er mwyn trafod a chytuno ar sut y gellid gwella tryloywder ac adrodd ar sail deilliannau er mwyn sicrhau y byddai profiadau pobl hŷn a'r materion sy'n eu hwynebu yn cael eu hadrodd a'u trafod ar lefel Bwrdd.

O ganlyniad i'r cyfarfod hwn, mae pob Bwrdd Iechyd wedi cytuno i adrodd a thrafod y deilliannau a phrofiadau pobl hŷn mewn ysbytai mewn cyfarfodydd Bwrdd o gychwyn Ebrill 2016 ymlaen, ac mae hynny'n rhywbeth fydd yn chwarae rôl bwysig o ran cefnogi gwelliannau parhaus o ran profiadau pobl hŷn sy'n defnyddio gwasanaethau ysbytai yng Nghymru.

## Gwella integreiddio rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol

Mae gwella integreiddio rhwng ein systemau gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall pobl hŷn gael mynediad i'r gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Fel Comisiynydd, rwyf wedi croesawu'r gwaith sydd wedi cael ei wneud er mwyn creu newid ar draws y systemau hyn.

Yn dilyn fy nadansoddiad o'r datganiadau o fwriad a gyhoeddwyd gan y Byrddau Iechyd a'r Awdurdodau Lleol yn 2014, oedd yn nodi'r ffyrdd y byddent yn cyflawni mwy o integreiddio rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol, bu i mi gynnal gweithdy rhyngweithiol ym mis Ebrill 2015 er mwyn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch sut beth fyddai integreiddio llwyddiannus, a sut y gellid mesur llwyddiant.

Yn ogystal â gwahodd cyfranogwyr o ofal iechyd a gofal cymdeithasol i'r gweithdy, bu i mi hefyd wahodd cydweithwyr o'r sector tai a'r trydydd sector i gyfranogi, gan adlewyrchu'r rôl allweddol maent yn ei chwarae wrth gefnogi a hyrwyddo iechyd llesiant, a'r ffaith na fydd integreiddio llwyddiannus yn cael ei gyflawni nes eu bod yn cael eu cydnabod fel partneriaid cyflawni strategol allweddol sy'n cael eu cynnwys yn gyson pan fo gwasanaethau integredig yn cael eu cynllunio.

Yn ystod y gweithdai, bu i'r cyfranogwyr ystyried pam fod integreiddio mor bwysig i bobl hŷn, y buddion sy'n deillio o hynny a phris methu; sut beth fyddai system gofal iechyd a gofal cymdeithasol integredig llwyddiannus; a pha ddangosyddion a ddylid eu defnyddio i fesur llwyddiant.

O ganlyniad i'r gweithdai, roedd y cyfranogwyr yn deall yn well o lawer na fyddai mesuriadau traddodiadol, sy'n canolbwyntio ar systemau a phrosesau yn hytrach na deilliannau, yn effeithiol o ran mesur llwyddiant gofal iechyd,

gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus ehangach, a bod ymgysylltu parhaus â phobl hŷn ynglŷn â'u profiadau yn hanfodol er mwyn canfod meysydd sy'n peri pryder a chyflawni gwelliannau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Roedd y cyfranogwyr hefyd yn cydnabod na fyddai gwell deilliannau i bobl hŷn yn cael eu cyflawni heb weithio effeithiol mewn partneriaeth â'r sector tai, y trydydd sector a darparwyr gwasanaethau eraill, megis darparwyr trafnidiaeth.

## 'Ffioedd Atodol' Cartrefi Gofal

Drwy'r sgyrsiau rwyf yn eu cael â phobl hŷn ar draws Cymru, a'r cymorth yr wyf yn ei roi drwy fy nhîm Gwaith Achos, mae'n amlwg bod talu am ofal yn fater cymhleth ac emosiynol.

Rwyf wedi derbyn nifer o ymholiadau sy'n gysylltiedig â cheisiadau gan ddarparwyr cartrefi gofal am 'daliadau trydydd parti' tuag at gostau gofal (pan fo unigolyn yn derbyn arian gan Awdurdod Lleol neu Fwrdd Iechyd), neu gostau 'gwasanaethau ychwanegol'. Er bod y costau hyn yn destun rheoliadau a'u bod yn wahanol iawn i'w gilydd, fe'm hysbyswyd y cyfeirir at y ddau ar lafar fel 'ffioedd atodol'.

Yn ychwanegol at ddryswch ynghylch beth mae'r taliadau ychwanegol yma yn ei dalu amdano, mae pob hŷn hefyd wedi rhannu eu pryderon gyda fi y byddant yn cael eu gorfodi i symud cartref pe na baent hwy neu eu teuluoedd yn gallu talu'r cyfryw gostau.

O ystyried y pryderon hyn, bu i mi ysgrifennu at bob darparwr cartref gofal yng Nghymru ym mis Mawrth 2016, yn ogystal ag Awdurdodau Lleol a Chomisiynwyr Byrddau Iechyd, gan amlinellu fy nisgwyliadau'n glir ar ran pobl hŷn sydd mewn sefyllfaoedd pan fo taliadau ychwanegol efallai'n ofynnol. Yn y llythyrau, eglurais:

- Na ddylai 'ffioedd atodol' fyth gael eu defnyddio i dalu am, neu i gymorthdalu costau gofal sylfaenol, ac na ddylai fod yn angenrheidiol i sicrhau bod anghenion a lles unigolyn yn cael eu bodloni.
- Mae angen mwy o eglurder ynglŷn â beth y gofynnir i unigolion a'u teuluoedd dalu amdanynt.
- Ni ddylid fyth defnyddio Lwfans Treuliau Personol i dalu neu gymorthdalu am gostau gofal.

Byddaf yn parhau i wrando ar leisiau a phrofiadau pobl hŷn a'u teuluoedd mewn perthynas â'r mater hwn er mwyn sicrhau nad yw pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn annheg

neu'n anghymesur a bod y system o dalu am ofal mewn cartrefi gofal yn effeithio'n negyddol arnynt.

## Cymhorthion ac addasiadau

Rwyf wedi parhau i fonitro'r addasiadau sy'n cael eu darparu yng Nghymru, yn ogystal â'r systemau cyllido a ddefnyddir i ddarparu'r rhain, ar ôl codi nifer o bryderon yn ystod y blynyddoedd blaenorol ynghylch oedi annerbyniol yn achos Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a'r Llywodraeth Cymru. Mae'r addasiadau hyn yn hanfodol er mwyn helpu pobl hŷn i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain, ac mae'n hanfodol eu bod yn cael eu darparu yn brydlon ac effeithiol.

Yn dilyn fy ngalwadau am welliannau i'r system addasiadau mewn cartrefi yng Nghymru, yn arbennig mewn perthynas ag amserlenni darparu, yr oedd rhai ohonynt yn cael eu torri gan Awdurdodau Lleol, bu i Lywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad i'r system, a gynhaliwyd gan Shelter, Tai Pawb a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd. Bu i mi ddarparu tystiolaeth gynhwysfawr i'r adolygiad hwn, gan nodi'n glir fy nisgwyliadau ar ran pobl hŷn.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r adolygiad, bu i Lywodraeth Cymru ymrwymo i sefydlu 'Grŵp Darparu System Addasiadau Uwch' er mwyn dyfeisio system addasiadau newydd i Gymru er mwyn sicrhau gwell amseroedd cyflawni a phrofiad unigolion. Roeddwn yn falch o fod yn aelod o'r grŵp hwn a defnyddiais fy lle er mwyn sicrhau bod anghenion a buddion pobl hŷn yn cael eu hystyried a'u hadlewyrchu wrth i benderfyniadau ynglŷn â'r system addasiadau yng Nghymru gael eu gwneud.

Ym Mawrth 2016, bu i mi groesawu cyhoeddiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi y byddai'r system addasiadau newydd - 'Galluogi - Cymorth ar gyfer Byw yn Annibynnol' - yn cael ei gyflwyno'n gyffredinol o 1 Ebrill 2016, ond eglurais y bydd llwyddiant y cynllun newydd yn ddibynnol ar sicrhau ei fod yn cael ei weithredu mewn ffordd gyson ar draws Cymru a bod profiadau pobl yn cael eu defnyddio i ysgogi gwelliannau parhaus.

Byddaf yn parhau i eistedd ar y Grŵp Darparu System Addasiadau Uwch er mwyn sicrhau bod y system newydd wedi'i danategu gan drefniadau monitro a gwerthuso cydnerth wrth iddi gael ei chyflwyno a pharhau i gael ei datblygu.

## Gweithio mewn partneriaeth â Swyddfa Archwilio Cymru

Bu i mi weithio'n agosach â Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod 2015-16 er mwyn  eu galluogi i gyhoeddi adroddiad 'Cefnogi Annibyniaeth Pobl Hŷn:

A yw Cynghorau yn Gwneud Digon?', oedd yn edrych ar y ffyrdd y mae Awdurdodau Lleol yn rhoi cymorth i bobl hŷn gynnal eu hiechyd, llesiant a'u hannibyniaeth. Roedd yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015, yn adlewyrchu nifer o fy ngalwadau am  wasanaethau ataliol, arloesol, seiliedig ar ddeilliannau ar gyfer pobl hŷn.

Bu i mi hefyd weithio â thîm Cyfnewid Arfer Da Swyddog Archwilio Cymru ar ddwy seminar dysgu ar y cyd, a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2015. Cynhaliwyd y seminarau poblogaidd - o'r enw 'Annibyniaeth Barhaus Pobl Hŷn' - yng Nghaerdydd a Llanrwst, gan ddenu amrywiaeth eang o gyfranogwyr o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn ogystal ag aelodau o fforymau pobl hŷn.

Roedd y seminarau yn canolbwyntio ar yr angen am atebion arloesol er mwyn taclo unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol, dulliau creadigol o ddarparu cyfleoedd dysgu gydol oes sydd eu gwir angen a'r ffyrdd y gall y sector cyhoeddus a'r trydydd sector gydweithio'n fwy effeithiol er mwyn gwella bywydau pobl hŷn.

## Heneiddio'n Dda yng Nghymru

Ers ei lansio ym mis Hydref 2014, mae Heneiddio'n Dda yng Nghymru - y rhaglen bartneriaeth genedlaethol ar gyfer gwella iechyd a llesiant pobl 50+ oed yng Nghymru, yr wyf i yn ei Gadeirio ac a gynhelir gan fy swyddfa - wedi parhau i dyfu'n sylweddol, gan ymgysylltu â phartneriaid a chymunedau ar draws Cymru.

Yn ystod 2015-16, bu i aelodaeth rhwydweithiau lleol Heneiddio'n Dda yng Nghymru gynyddu'n sylweddol o ganlyniad i ymgysylltu helaeth mewn cymunedau ar draws Cymru. Erbyn hyn mae dros 1,000 o grwpiau ac unigolion yn aelodau o rwydweithiau lleol Heneiddio'n Dda, ac maent yn gyrru nodau ac amcanion y rhaglen yn eu blaen ar lefel gymunedol.

Mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru hefyd wedi cyhoeddi Cynlluniau Lleol, sy'n nodi'r gwaith fyddant yn ei wneud er mwyn cyflawni blaenoriaethau Heneiddio'n Dda. Yn y cynlluniau, ceir ffocws penodol ar greu cymunedau sy'n oedran gyfeillgar a chymunedau sy'n cynnig mwy o gefnogaeth i bobl sy'n byw â dementia yng Nghymru.

Ar lefel strategol, mae partneriaid cenedlaethol - yn cynnwys Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd - yn datblygu ystod eang o gamau er mwyn cyflawni gwelliannau o dan bum thema allweddol Heneiddio'n Dda (cymunedau oedran gyfeillgar, cymunedau dementia gefnogol, lleihau cwympiadau, unigrwydd ac arwahanrwydd, dysgu

a chyflogaeth) yn ystod Cam Dau'r Rhaglen.

Mae enghreifftiau o lwyddiannau a gyflawnwyd drwy Heneiddio'n Dda yng Nghymru yn ystod 2015-16 yn cynnwys:

- **Cymunedau Oedran Gyfeillgar:** Cyfranogiad Abergwaun a Wdig mewn cynllun peilot byd-eang o dan arweiniad Sefydliad Iechyd y Byd er mwyn canfod beth sy'n gwneud cymuned yn gymuned oedran gyfeillgar. Roedd lleoliadau eraill oedd yn cymryd rhan yn y cynllun peilot yn cynnwys Shanghai, Delhi Newydd a Washington DC.
- **Atal Cwympiadau:** Gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid allweddol eraill er mwyn datblygu ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus, 'Steady On - Stay Safe', er mwyn helpu'r rhai sy'n wynebu'r risg mwyaf o gwympo.
- **Cymunedau Dementia Gefnogol:** Parhau â'r gwaith o sefydlu cymunedau dementia gefnogol ar draws Cymru, gan adeiladu ar y model a ddatblygwyd gan Fenter Cymuned Dementia Gefnogol Aberhonddu a'r Gelli. Mae enghreifftiau o arferion da yn cael eu rhannu yn eang gyda chymunedau er mwyn ysbrydoli gweithredu ar draws Cymru. Mae canllawiau poced ar sut i fod yn gefnogol i bobl sy'n byw â dementia wedi cael eu cynhyrchu hefyd a'i ddosbarthu'n eang i gymunedau ar draws Cymru.
- **Dysgu a Chyflogaeth:** Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, yn arbennig y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, er mwyn canfod y rhwystrau sy'n wynebu pobl hŷn sy'n ceisio swyddi, hyrwyddo buddion gweithlu sy'n amrywiol o ran oedran a threchu oedraniaeth yn y gweithle. Mae gweithdai hefyd wedi cael eu cynnal â'r TUC, oedd yn edrych ar sut y gall y gweithle fod yn fwy cefnogol i weithwyr hŷn.
- **Unigrwydd ac Arwahanrwydd:** Gweithio mewn partneriaeth â Men's Sheds er mwyn mynd i'r afael ag unigrwydd ymysg dynion hŷn, gan adeiladu ar arferion da megis mentrau a gynhaliwyd gan Men's Shed Hen Golwyn er mwyn atal arwahanrwydd. Bu i gydweithredu â'r Ymgyrch i Ddiweddu Unigrwydd hefyd eu harwain at gynnal cynhadledd y DU yng Nghaerdydd, gan ddarparu cyfleoedd i randdeiliaid ar draws y DU arddangos y gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru er mwyn taclo unigrwydd ac arwahanrwydd.

Yn ystod 2015-16 bu i dwf a phwysigrwydd Heneiddio'n Dda yng Nghymru gael i gydnabod yn gynyddol ar draws Cymru, ar lefel leol a chenedlaethol, gyda'r cyfryngau a gwleidyddion yn rhoi sylw i'r rhaglen a'i photensial i wella

cymunedau a bywydau pobl hŷn. Hefyd, bu i'r rhaglen gael ei chydnabod fel cyfrwng newid allweddol mewn nifer o bolisïau cenedlaethol, cynlluniau a strategaethau gweithredu, yn cynnwys ymgynghoriad ar Gynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru 2016-19, Cyflawni Fframwaith Strategol Cynhwysiant Digidol Cymru, Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru a Strategaeth Galluedd Ariannol Cymru y Gwasanaeth Cyngor Ariannol.

Mae rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru hefyd yn parhau i gael ei chydnabod ar lefel Ewropeaidd, ac mae'n parhau i fod yn rhan annatod o Bartneriaeth Arloesi Ewropeaidd ar Heneiddio Egnïol ac Iach (EIP-AHA), ac mae hynny wedi arwain at ddiddordeb a chynigion i gydweithio o ardaloedd Ewropeaidd eraill, ac at chwarae rôl arwyddocaol o ran cefnogi Cymru i gadw ei statws safle 3 seren, a ddyfarnwyd am ei ddull arloesol o wella bywydau pobl hŷn.

# Diogelu a Gwarchod Pobl Hŷn

Drwy gydol 2015-16, rwyf wedi parhau i wneud ystod eang o waith er mwyn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â natur y gamdriniaeth y mae pobl hŷn yn ei wynebu, sy'n effeithio ar dros 40,000 o unigolion bob blwyddyn, a'r amgylchiadau all olygu bod pobl hŷn yn arbennig o agored i niwed neu'n wynebu risg o niwed.

Mae fy ngwaith yn y maes hwn wedi canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod yna ddull sympathetig o ganfod pobl hŷn sy'n wynebu risg o niwed a sicrhau bod y rhai gaiff eu cam-drin yn cael cymorth llawn ein systemau cyfiawnder troseddol ac yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt er mwyn adfer eu diogelwch a'u lles.

## Seminarau a Chyflwyniadau Codi Ymwybyddiaeth

Bu i mi gynnal tri digwyddiad seminar yn ystod 2015-16 ym Maglan, Aberhonddu a Llanrwst, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cam-drin domestig y mae pobl hŷn yn ei wynebu. Roedd y pynciau a drafodwyd yn y seminarau yn cynnwys faint o gam-drin mae pobl hŷn yng Nghymru yn ei wynebu, y cysylltiadau rhwng oedraniaeth a chamdriniaeth, hawliau dynol, cam-drin mewn cymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, rôl allweddol eiriolaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr cam-drin domestig.

Mynychwyd y seminarau, oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan arbenigwyr sy'n gweithio ym maes gwarchod oedolion ac a oedd yn rhannu ystod eang o arferion da, gan dros 300 o weithwyr proffesiynol rheng flaen sydd â chysylltiad uniongyrchol â phobl hŷn.

Roedd yr adborth o'r seminarau yn rhyfeddol o gadarnhaol, a bwriedir cynnal seminarau eraill yn ystod 2016-17, er mwyn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ymysg mwy o bobl broffesiynol sy'n gweithio â phobl hŷn ar draws Cymru.

Hefyd darparwyd cyflwyniadau codi ymwybyddiaeth, oedd yn dwyn sylw at gam-drin pobl hŷn fel mater allweddol ac a nododd beth ellid ei weithredu er mwyn gwella bywydau pobl hŷn yr effeithir arnynt gan gamdriniaeth, i'r rhanddeiliaid canlynol yn ystod 2015-16:

- Pob Bwrdd Diogelu yng Nghymru
- Fforymau Cam-drin Domestig
- Cyfarwyddwyr Byrddau Iechyd
- Staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

- Staff Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
- Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddyliol Cydnabyddedig (fel rhan o'u cwrs gradd)
- Ustusiaid yn Hwlffordd
- Cynhadledd Diogelu Capita, Caerdydd
- Cynhadledd SafeLives, Llundain
- Cynhadledd Bwrdd Diogelu Gwent, Casnewydd
- Cynhadledd Age Cymru Gwent, Casnewydd
- Rhwydwaith Fforwm 50+ De Cymru
- Fforwm Access 4 All
- Grŵp 50+ Y Fenni ar gam-drin pobl hŷn

## Taclo anghydraddoldeb yn y system cyfiawnder troseddol

Ar Ddiwrnod Ymwybyddiaeth o Gam-drin Henoed y Byd (15 Mehefin), bu i mi alw am newid y ddeddf er mwyn ei gwneud yn haws erlyn y rhai sy'n cam-drin neu'n esgeuluso pobl hŷn, neu'r rhai sy'n caniatáu i gam-drin neu esgeulustod ddigwydd, megis rheolwyr a darparwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

Eglurais nad yw'r ddeddf fel y mae hi yn cynnig digon o warchodaeth i bobl hŷn sy'n dioddef gofal is na'r safon, camdriniaeth neu esgeulustod, ac nad yw'n ataliad digonol i'r rhai sy'n darparu gofal is na'r safon nac i'r rhai sy'n cam-drin neu'n esgeuluso pobl hŷn.

Hefyd, bu i mi leisio pryderon difrifol ynglŷn â'r ffaith bod nifer yr euogfarnau am droseddau yn erbyn pobl hŷn yn gymesurol is o'i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, gyda thua 1% yn unig o'r troseddau a gofnodwyd yn erbyn pobl hŷn yn arwain at euogfarnau (mae'r ffigwr y tua 19% yn achos holl droseddau'r DU), sy'n awgrymu nad yw'r prawf tystiolaethol a ddefnyddir ar hyn o bryd yn addas i'r diben, a bod yna ddiffyg parodrwydd i erlyn am droseddau yn erbyn pobl hyn, neu nad yw'r gyfraith ei hun yn ddigonol.

Ysgrifennais at y Gweinidog Cyfiawnder a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus er mwyn amlinellu fy mhryderon ac rwyf ar hyn o bryd yn gweithio gyda Chomisiwn y Gyfraith er mwyn canfod meysydd penodol ble mae'r gyfraith yn ddiffygiol. Yn ogystal â chyflwyno fy nghanfyddiadau i Lywodraeth y DU a Gwasanaeth Erlyn y Goron, byddaf hefyd yn egluro fy mod yn disgwyl y bydd camau yn cael eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb amlwg sy'n bodoli yn ein system cyfiawnder troseddol er mwyn sicrhau nad

yw oedran person yn ffactor ddiffiniol mewn perthynas â p'un a yw'r gyfraith yn darparu cymorth a gwarchodaeth iddynt

## Partneriaeth Cymru yn Erbyn Sgamiau

Mae sgamiau yn effeithio'n niweidiol a pharhaus ar fywydau pobl hŷn, sy'n golygu eu bod nid yn unig y colli eu harian a'u cynilion, ond bod hynny hefyd yn effeithio ar eu hyder a'u hurddas. Mae'n hanfodol bod sgamiau yn cael eu hadnabod am beth ydynt - lladrad a thwyll troseddol sy'n aml yn manteisio ar rai o'r unigolion sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Dyna pam y bu i mi weithio ag Age Cymru drwy gydol 2015-16 er mwyn sefydlu Partneriaeth Cymru yn Erbyn Sgamiau (WASP) yn ffurfiol, a lansiwyd ym Mawrth 2016, a'r cyd-gadeiryddion yw Prif Weithredwr Age Cymru, Ian Thomas, a finnau.

Mae WASP yn dod ag ystod eang o bartneriaid at ei gilydd - yn cynnwys Safonau Masnach, Diogel Ar-lein, Heddluoedd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, banciau a chwmnïau cyfleustodau - fydd yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn gwarchod pobl yn well rhag sgamiau a sicrhau nad oes croeso i droseddwyr sy'n sgamio yng Nghymru.

Ym Mawrth 2016, bu i WASP lansio ei Gynllun Gweithredu, sy'n nodi'n fanwl y gwaith fydd yn cael ei wneud gan bartneriaid er mwyn taclo sgamiau ar draws Cymru a gwarchod pobl hŷn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r camau a nodir yn y Cynllun Gweithredu wedi'u grwpio o dan benawdau ehangach sy'n ffurfio sail Siarter WASP, set o ymrwymiadau y bu i bob partner gytuno iddynt a chytuno i'w datblygu, sy'n cynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth a dadwarthnodi sgamiau
- Atal a gwarchod
- Arenwi a chofnodi
- Gorfodi, mynediad i gyfiawnder ac adfer

Lansiwyd y Cynllun Gweithredu a'r Siarter yng nghynhadledd sgamiau Tîm Sgamiau Safonau Masnach Cenedlaethol a Chynghrair Grymuso Defnyddwyr, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ac a fynychwyd gan gynrychiolwyr o bedwar ban y DU. Mae hyn yn rhoi cyfle rhagorol i rannu gwybodaeth gyda chynulleidfa genedlaethol ynghylch y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud yng Nghymru i daclo sgamiau a'r ystod eang o waith a gynlluniwyd ar gyfer symud ymlaen.

## Canllawiau ar atwrneiaeth arhosol

Drwy weithio mewn partneriaeth â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, sy'n gwarchod pobl nad oes ganddynt alluedd meddyliol efallai i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hunain, cynhyrchais a chyhoeddais 'Canllawiau Syml ar Atwrneiaeth Arhosol' ym mis Ionawr 2016.

Datblygwyd y canllawiau er mwyn helpu pobl i ddeall pwysigrwydd cael atwrneiaeth arhosol (LPA) er mwyn rheoli eu harian, iechyd llesiant, ac maent yn darparu gwybodaeth am sut i gofrestru LPA mewn ffordd glir a hygyrch. Mae'r canllawiau hefyd yn rhoi atebion i gwestiynau cyffredin ynglŷn ag LPA, gan helpu i sicrhau bod penderfyniadau yn y dyfodol yn cael eu diogelu.

Ers eu cyhoeddi, mae'r canllawiau wedi'u dosbarthu'n eang fel copi caled, drwy fy swyddfa i a Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, ac maent wedi cael eu lawrlwytho 1,000 o weithiau. Mae'r canllawiau hefyd ar gael ar wefan Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth er mwyn sicrhau bod pobl broffesiynol sy'n gweithio â phobl hŷn yn deall yn iawn beth yw buddion LPA a beth mae proses LPA yn ei olygu.

## Gwybodaeth a chanllawiau ar gam-drin domestig a thrais rhywiol

Rwyf wedi gweithio mewn partneriaeth â Thîm Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDA) Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu canllawiau ar gyfer pobl broffesiynol rheng flaen ar gam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r canllawiau yn cynnwys gwybodaeth ar gyffredinrwydd cam-drin pobl hŷn a'i nodweddion cyffredin, a'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ymateb pan fo person hŷn yn cael ei gam-drin, yn ogystal â darparu manylion ynglŷn â'r ddeddfwriaeth y gellid ei defnyddio i ddiogelu person hŷn neu sicrhau erlyniad ar ran rhywun.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori, a roddodd gyfle i randdeiliaid ac unigolion roi sylwadau ar ei gynnwys, mae'r canllawiau erbyn hyn yn cael eu cwblhau a byddant yn cael eu cyhoeddi yn ystod Haf 2016.

## Gwaith ychwanegol mewn perthynas â diogelu a gwarchod

Yn ychwanegol at y gwaith a nodir uchod, rwyf hefyd wedi ymgymryd ag ystod eang o waith arall mewn perthynas â diogelu a gwarchod pobl hŷn yng Nghymru:

- Argraffu a dosbarthu mwy o gopïau o fy nhaflen gwybodaeth 'Cam-drin domestig a thrais rhywiol: help a chymorth i bobl hŷn yng Nghymru', a gyhoeddwyd am y tro cyntaf y llynedd. O ganlyniad i waith gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn ymgysylltu â Meddygon Teulu, mae sawl practis wedi cysylltu â fi yn gofyn am gopïau o'r daflen er mwyn eu harddangos yn eu meddygfeydd.
- Rwyf wedi gweithio mewn partneriaeth â Heddlu Gwent a'r Comisiynydd Trosedd a Heddlu Gwent er mwyn cefnogi cyflwyno 'Protocol Herbert', menter newydd er mwyn canfod pobl leol â dementia sydd ar goll.
- Bu i mi gefnogi Diverse Cymru gyda menter a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn arenwi materion mewn perthynas â throseddau yn erbyn pobl hŷn, yn arbennig rhai o gefndiroedd BAME.
- Ym mis Tachwedd 2015, dyfarnwyd 'Statws Rhuban Gwyn' i fy swyddfa gan Ymgyrch Rhuban Gwyn fel cydnabyddiaeth o'r gwaith mae fy nhîm a finnau wedi ei wneud yng Nghymru er mwyn taclo cam-drin domestig. Bu i mi hefyd gefnogi 'Heddwch Un Diwrnod', ymgyrch fyd-eang oedd eleni yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig.
- Bu i mi ddarparu adborth parhaus ar y materion sy'n effeithio ar bobl hŷn fel aelod o nifer o grwpiau arbenigol allweddol a sefydlwyd er mwyn taclo cam-drin domestig - yn cynnwys y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Grŵp Arweinyddiaeth Diogelu rhag Colli Rhyddid, grŵp llywio 'Gofyn a Gweithredu' trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol Llywodraeth Cymru a Grŵp Ffocws Cymorth i Ferched Cymru.
- Bu i mi weithio â BBC Wales er mwyn cynhyrchu rhaglen radio ac adroddiad newyddion teledu ar faint ac effaith cam-drin domestig yn achos pobl hŷn.

# Dylanwadu ar Bolisi, Deddfwriaeth ac Arferion

## Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru

Drwy gydol 2015-16 rwyf wedi parhau i gyfarfod â Gweinidogion Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed a bod polisi ac arferion yn adlewyrchu anghenion pobl hŷn. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, bu i mi leisio pryderon ynghylch meysydd deddfwriaethol nad ydynt yn canolbwyntio digon ar bobl hŷn, a chytuno ar sut y gellir creu newid yn effeithiol ar eu rhan.

Rwyf hefyd wedi parhau i weithio yn agos â Swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn deall yn iawn y materion sy'n effeithio ar bobl hŷn a sut y gellir mynd i'r afael â rhain.

Yn ychwanegol at weithio â Llywodraeth Cymru a'i swyddogion, bu i mi barhau i weithio gyda Chadeiryddion Pwyllgorau perthnasol y Cynulliad Cenedlaethol, gan ddwyn sylw at feysydd posibl ar gyfer craffu, ymchwilio ac ymholi.

### Ymatebion i ymgynghoriadau

Bu i mi ymateb i ystod eang o ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2015-16, gan ddefnyddio lleisiau a phrofiadau pobl hŷn er mwyn sicrhau bod polisi arfaethedig ac arferion yn adlewyrchu eu hanghenion ac y byddant yn cyflawni deilliannau cadarnhaol:

- 'Alinio'r model prentisiaeth ag anghenion economi Cymru' Llywodraeth Cymru, Ebrill 2015
- Cod Ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, Ebrill 2015
- Diwygio Llywodraeth Leol: Pŵer i Bobl Leol, Ebrill 2015
- Bil Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Llywodraeth Cymru: Datblygu Canllawiau Strategol ar gyfer Cyrff Cyhoeddus, Ebrill 2015
- Ymgynghoriad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Fil Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru), Mai 2015
- Cydfuddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y fframwaith sgiliau, Mehefin 2015

- Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-2020, Gorffennaf 2015
- Amcanion Cydraddoldeb Drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-2020, Gorffennaf 2015
- Adolygiad o System Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gorffennaf 2015
- Y rheoliadau a'r cod ymarfer mewn perthynas â rhan 5 Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru) 2014, Gorffennaf 2015
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Cynllun Strategol 2015-18, Gorffennaf 2015
- Cod Ymarfer Eiriolaeth, Gorffennaf 2015
- Ymgynghoriad cyhoeddus ar bynciau arfaethedig ar gyfer holiadur Cyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr, Awst 2015
- Gweithlu Gofal Sylfaenol Cynlluniedig ar gyfer Cymru, Awst 2015
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fil Iechyd Cyhoeddus (Cymru), Medi 2015
- Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Warchod Asedau Cymunedol, Medi 2015
- Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru i sicrhau mwy o gydraddoldeb i bobl drawsrywiol, Medi 2015
- Ymateb LIC i'r Adroddiad ar Gyfleoedd Cyflogaeth i Bobl Dros 50, Medi 2015
- Gwasanaethau Bysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol yng Nghymru, Hydref 2015
- Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol, Hydref 2015
- Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol Ysgrifenyddiaeth Cymru, Hydref 2015
- Canllawiau Statudol ar Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Tachwedd 2015
- Canllawiau statudol o dan Ddeddf Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru (2015) a thrais yn erbyn merched, Tachwedd 2015

- Cynyddu niferoedd merched a grwpiau eraill a dangynrychiolir ar Fyrddau Sector Cyhoeddus, Tachwedd 2015
- Comisiwn y Gyfraith: Galluedd Meddyliol a Cholli Rhyddid, Tachwedd 2015
- Ymgynghoriad ar God Ymarfer Rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Ran 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Rhagfyr 2015
- 'Diweddaru Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru 2016' Llywodraeth Cymru, Ionawr 2016
- 'Sut ydych yn mesur cynnydd cenedl?', Ionawr 2016
- Bil Drafft Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Ionawr 2016
- Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru), Ionawr 2016
- 'Sut ydym yn mesur iechyd cenedl?', Ionawr 2016
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Cynllun Drafft Strategol, Ionawr 2016
- "Gofyn a Gweithredu", Chwefror 2016
- Cynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru, Chwefror 2016
- Canllawiau drafft eglurhaol ar ddyletswydd didwylledd proffesiynol, Chwefror 2016
- Pennu'r Cyfeiriad i Gymru a Rheilffordd y Gororau, Mawrth 2016

## Tystiolaeth a Ddarparwyd i Bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Drwy gydol 2015-16 bu i fy nhîm a finnau hefyd gyflwyno tystiolaeth i nifer o Ymchwiliadau oedd yn cael eu cynnal gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru:

- Bil Rheoleiddio ac Archwilio (Cymru), Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Mai 2015
- Cyfleoedd Cyflogaeth i Bobl Dros 50, Y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2015
- Bil Iechyd Cyhoeddus Cymru, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Medi 2015

- Gwasanaethau Bysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol, Y Pwyllgor Menter a Busnes, Hydref 2015
- Galwad am dystiolaeth ynghylch Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), Y Pwyllgor Cyllid, Ionawr 2016
- Gwaith dilyniannol ar Ymchwiliad Gofal Preswyl i Bobl Hŷn, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Adolygiad y Comisiynydd o Gartrefi Gofal, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Ionawr 2016

## Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Mae rheoleiddio ac archwilio gofal cymdeithasol yn drylwyr yn hanfodol, nid yn unig er mwyn gwarchod pobl hŷn sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a'u cadw'n ddiogel, ond hefyd er mwyn sicrhau bod y gofal a'r cymorth a roddir iddynt o'r safon uchaf.

Felly bu i mi groesawu cyhoeddi Bil Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru), a ddyluniwyd i ddarparu fframwaith statudol well ar gyfer rheoleiddio ac archwilio gofal cymdeithasol yng Nghymru a rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, wrth ddadansoddi ei gynnwys, bu i mi ganfod nifer o ffyrdd y gellid atgyfnerthu'r Bil er mwyn cyflawni mwy ar ran pobl hŷn.

Mae'r meysydd oedd yn peri pryder, y bu i mi ddwyn sylw atynt yn fy nhystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod y broses graffu cynddeddfwriaethol, yn ogystal ag mewn sesiynau briffio Aelodau yn ystod craffu Cam 2 a Cham 3, yn cael eu nodi isod, ynghyd â gwybodaeth am y ffyrdd yr ymdrinnir â'r pryderon hyn.

**Addasrwydd i berchnogi:** Roedd yn amlwg bod yn rhaid i atebolrwydd am fethiannau ym maes gofal gael ei ymestyn i berchnogion gwasanaethau er mwyn sicrhau bod y rhai sydd wedi bod yn berchnogion gwasanaeth sydd wedi dod i ben o ganlyniad i ofal gwael arwyddocaol yn cael eu gwahardd rhag bod yn berchen ar wasanaethau yn y dyfodol - mae'n rhaid i'r rhai sy'n elwa o ddarparu gofal fod yn atebol, yn ogystal â'r rhai sy'n darparu gofal yn y rheng flaen.

Fel ymateb, diwygiwyd y Bil er mwyn cynnwys prawf 'addas a phriodol' fydd yn gymwys i berchnogion gwasanaethau, fydd yn eu rhagwahardd rhag darparu gofal os ydynt wedi troseddu, neu os ydynt wedi bod yn 'gyfrifol am, neu wedi cyfrannu at, neu hwyluso camymddwyn neu gamreoli' mewn rôl flaenorol.

**Cofrestru gweithlu:** Gan adlewyrchu canfyddiadau fy Adolygiad o Gartrefi Gofal, bu i mi egluro pwysigrwydd sicrhau bod gan y bobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol y sgiliau priodol a'u bod yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt, yn ogystal â phwysigrwydd gallu gwahardd rhai sy'n darparu gofal gwael rhag gweithio yn y sector gofal cymdeithasol, a'r buddion y byddai rheoleiddio'r gweithlu drwy gofrestru yn eu creu mewn perthynas ag ansawdd bywyd pobl hŷn.

Felly bu i mi groesawu'r cyhoeddiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai cofrestru gweithlu yn cael ei ymestyn i weithwyr gofal cartref o 2020, gyda chofrestru gweithwyr gofal preswyl yn dilyn yn 2022.

**Diffinio gofal:** Roeddwn yn sicr bod raid i ddiffiniad o'r hyn yw gofal da adlewyrchu'r ffactorau sy'n galluogi i unigolyn gael y safon bywyd gorau posibl, megis hawliau, urddas, dewis, annibyniaeth, cyflawniad a phreifatrwydd.  Bydd hyn yn galluogi gwasanaethau i ganolbwyntio ar yr unigolyn, eu safon bywyd a'u profiad bywyd, yn hytrach na thasgau, ac mae hynny'n hanfodol er mwyn lleihau amrywiadau annerbyniol mewn perthynas â safonau gofal.

Roeddwn yn croesawu sicrwydd y bydd hyn yn cael ei roi ar waith drwy'r rheoliadau fydd yn pennu'r Safonau Cenedlaethol newydd ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol, fydd yn cael eu drafftio yn ystod Gwanwyn 2016.

**Integreiddio Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol:** Bu i mi ddwyn sylw at nifer o fylchau ac anghysonderau yn y broses archwilio a ganfuwyd gan fy Adolygiad o Gartrefi Gofal, yn benodol y diffyg posibl o ran rheoleiddio ac archwilio gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir mewn cartrefi gofal.

Bydd y gwaith o ymdrin â'r pryderon hyn yn cael ei wneud drwy bapur Gwyrdd 'Ein Hiechyd, Ein Gwasanaeth Iechyd' yr ymgynghorwyd arno'n ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.

**Comisiynu:** Nodais yr effaith y gall comisiynu ei gael ar fywydau pobl hŷn a phwysigrwydd sicrhau bod ansawdd gofal a safon byw yn rhan flaenllaw o benderfyniadau comisiynu, yn hytrach na bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail costau.

Erbyn hyn  mae wyneb y Ddeddf yn cyfeirio at gomisiynu fel un o'r swyddogaethau y gall Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddymuno ei ystyried wrth adolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol, ac mae gan hynny'r potensial i wella'r system gomisiynu yn sylweddol.

**Defnyddio aseswyr lleyg:** Bu i mi ddwyn sylw at y ffyrdd y gallai aseswyr lleyg, am bris cymharol isel, wella'r broses archwilio a rhoi cymorth i'r rheoleiddiwr ddeall materion o safbwynt dinasyddion.

Felly, roeddwn yn falch o weld ar wyneb y Ddeddf bod yna ddyletswydd gyffredinol erbyn hyn ar Brif Archwiliwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i gyhoeddi datganiad ar sut y bydd yn cynnwys y cyhoedd yn y broses archwilio, sy'n cael ei roi ar waith gan Fwrdd Cynghori Cenedlaethol AGGCC.

Yn ogystal â dylanwadu ar y Ddeddf ar gychwyn y broses ddeddfwriaethol, drwy graffu ar y Bil drafft ac egluro ble fydd angen gwelliannau, byddaf hefyd yn parhau i siapio'r ddeddfwriaeth hon fel aelod o'r Grŵp Technegol sy'n gyfrifol am ddrafftio'r rheoliadau fydd yn tanategu'r Ddeddf. Bydd hyn yn sicrhau y bydd y rheoliadau yn ymdrin â Gofynion Gweithredu perthnasol fy Adolygiad o Gartrefi Gofal.

Yn yr un modd, rwyf hefyd wedi gweithio â Bwrdd Cynghori Cenedlaethol AGGCC gan ddylanwadu ar eu fframwaith archwilio newydd a'r ffyrdd y mae gwybodaeth am wasanaethau gofal cymdeithasol a'r broses archwilio yn cael eu cyflwyno i'r cyhoedd.

## Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Rwyf wedi bod yn gefnogol i Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ers y cychwyn oherwydd fe'i dyluniwyd i sicrhau dull ataliol, hirdymor o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, ac mae hynny'n hanfodol er mwyn gwella bywydau pobl hŷn.

Drwy gydol 2015-16, bu i mi ymgysylltu'n helaeth â Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLl) ar draws Cymru er mwyn sicrhau y bydd yr asesiadau llesiant a'r cynlluniau llesiant fydd yn cael eu datblygu o dan y Ddeddf gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol newydd yn adlewyrchu ac yn ymdrin ag anghenion pobl hŷn ac yn ategu'r cynlluniau gweithredu Heneiddio'n Dda yng Nghymru sy'n cael eu gweithredu gan Awdurdodau Lleol.

O ganlyniad i'r cyfarfodydd â'r BGLlau, rwyf hefyd wedi cychwyn datblygu canllawiau ffurfiol er mwyn i Fyrddau Gwasanaethau Lleol gefnogi datblygiad eu cynlluniau llesiant, a'r asesiadau o anghenion tanategol, fydd y cael eu cyhoeddi yn ystod Haf 2016.

Ar lefel fwy strategol, rwyf wedi gweithio â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y dangosyddion cenedlaethol a ddefnyddir i fesur effaith y Ddeddf yn canolbwyntio ar ddeilliannau a'u bod yn berthnasol i bobl hŷn. Mae nifer o'r dangosyddion, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016, yn ategu'r model safon bywyd y mae fy mlaenoriaethau fel Comisiynydd yn seiliedig arnynt, ac maent

yn canolbwyntio ar faterion megis mynediad i wasanaethau a chyfleusterau, teimlo'n ddiogel yn y cartref, ac unigrwydd ac arwahanrwydd.

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn pennu ystod eang o ddyletswyddau newydd ar gyfer cyrff cyhoeddus er mwyn sicrhau mwy o ffocws ar atal, annibyniaeth a llesiant o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â chynnig mwy o ddewis a rheolaeth i bobl hŷn â'u gofalwyr ar y gofal a'r cymorth maent yn ei dderbyn.

Er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn deall beth allant ei ddisgwyl o dan y Ddeddf, datblygais lyfryn gwybodaeth sy'n egluro, mewn ffordd glir a hygyrch, yr egwyddorion sy'n tanategu'r Ddeddf, yr hawliau sydd ganddynt ar hyn o bryd a'r ffyrdd newydd o asesu eu hanghenion.

Rwyf hefyd wedi datblygu pecyn sy'n rhoi mwy o wybodaeth fanwl am y ddeddfwriaeth newydd i bobl hŷn a gofalwyr er mwyn rhoi cymorth iddynt gael mynediad i'r gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ac y mae ganddynt hawl i'w derbyn o dan y Ddeddf.

## Gwireddu Hawliau i Bobl Hŷn

Fel Comisiynydd, rwyf wedi gweld â fy llygaid fy hun sut mae hawliau pobl hŷn, yn arbennig y rhai sydd efallai'n agored i niwed, yn prinhau wrth iddynt heneiddio, ac mae hynny'n rhywbeth all effeithio'n niweidiol ar eu bywydau.

Felly, defnyddiais Ddiwrnod Hawliau Dynol (10 Rhagfyr) i alw ar Lywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno deddfwriaeth fydd yn gwarchod a hyrwyddo hawliau pobl hŷn fel y gallant fyw heb gamdriniaeth, esgeulustod a oedraniaeth a chyfranogi'n llawn yn eu cymunedau a ffynnu wrth heneiddio.

Bu i mi gynnig creu darn unigol o ddeddfwriaeth fyddai nid yn unig yn dod â nifer o offerynnau a gydnabyddir yn rhyngwladol at ei gilydd a ddyluniwyd i warchod hawliau pobl hŷn, ond hefyd i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a ganfuwyd mewn deddfwriaeth bresennol sy'n golygu nad yw hawliau pobl yn cael eu hategu. Byddai'r ddeddfwriaeth yn creu dyletswyddau penodol ar gyrff cyhoeddus ac yn sicrhau bod dull o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n seiliedig ar hawliau yn cael ei fabwysiadu ar draws Cymru.

Roeddwn yn falch iawn bod fy nghynigion wedi derbyn cefnogaeth drawsbleidiol a byddaf yn gweithio â Llywodraeth nesaf Cymru er mwyn datblygu mwy ar y gwaith hanfodol hwn yn ystod 2016-17. Er mwyn

cynorthwyo'r gwaith hwn, bu i mi sefydlu grŵp cynghori o arbenigwyr o'r sector cyhoeddus, sector cyfreithiol a'r trydydd sector, yn ogystal â phobl hŷn, er mwyn penderfynu beth ellid ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth arfaethedig a sut fyddai'n gweithio'n ymarferol.

Bydd canfyddiadau'r grŵp yn cael eu cyhoeddi yn ystod Haf 2016 a byddant yn rhoi cyfle gwirioneddol i Aelodau'r Cynulliad ac i Lywodraeth Cymru barhau i yrru agenda cyfiawnder cymdeithasol yn ei flaen yng Nghymru er mwyn sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu gwarchod a'u hyrwyddo a'u bod yn cael eu trin yn gydradd â phobl o grwpiau oedran eraill.

## Canllawiau Adran 12: Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chraffu

Mae colli gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol allweddol, megis bysiau cyhoeddus, toiledau, llyfrgelloedd, canolfannau dydd a dysgu gydol oes, yn parhau i fod yn broblem arwyddocaol i bobl hŷn ar draws Cymru. Gan adeiladu ar waith a wnaethpwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol a gyflwynodd achos cryf o blaid cadw'r gwasanaethau hyn, defnyddiais fy mhwerau statudol i ddarparu Canllawiau Ffurfiol i Awdurdodau Lleol ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chraffu.

Mae'r Canllawiau hyn, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016, yn nodi sut i gynnal asesiadau trylwyr  a chydnerth o'r effeithiau a'r prosesau craffu sy'n canfod unrhyw effaith anghymesur ar bobl hŷn pan fo newidiadau yn cael eu cynnig, yn ogystal â chamau a ellir eu cymryd er mwyn lliniaru unrhyw effaith posibl. Datblygwyd y canllawiau hyn gyda chymorth Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Awdurdodau Lleol.

Er mwyn sicrhau mwy o ffocws ar hawliau pobl hŷn drwy gydol y broses asesu, mae'r Canllawiau yn cynnwys offeryn newydd a ddatblygwyd ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol, sy'n cyfuno Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gydag Asesiad Hawliau Dynol er mwyn galluogi Awdurdodau Lleol i gynnal asesiadau ehangach a manylach o'r effeithiau, a hynny'n effeithiol ac effeithlon.

Er mwyn rhoi cymorth i Awdurdodau Lleol ymgorffori fy Nghanllawiau yn eu harferion gweithio, bu i mi gychwyn cyfres o weithdai hyfforddi ym mis Mawrth 2016 er mwyn sicrhau bod Aelodau Cynghorau a swyddogion yn deall ac yn gallu defnyddio dull seiliedig ar hawliau wrth ystyried newidiadau i wasanaethau neu wrth wneud penderfyniadau.

.

## Gwreiddio dull seiliedig ar hawliau

Ym mis Medi 2015, bu i mi gyfarfod â Chadeiryddion Byrddau Iechyd er mwyn trafod buddion dull seiliedig ar hawliau wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ac er mwyn canfod cyfleoedd i gydweithio er mwyn gwreiddio'r dull hwn ar draws y GIG yng Nghymru.

Yn dilyn y cyfarfod hwn, bu i mi weithio mewn partneriaeth â Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG er mwyn cynhyrchu papur ynglŷn â sut y gellid mabwysiadu dull seiliedig ar hawliau yn y GIG a'r gwahaniaeth fyddai hyn yn ei olygu i bobl hŷn sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Cyflwynwyd a chroesawyd y papur hwn mewn cyfarfod bwrdd gron yn Chwefror 2016, a fynychwyd gan gynrychiolwyr allweddol o Fyrddau Iechyd, yn cynnwys Cadeiryddion, Aelodau Bwrdd Annibynnol a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus.

Bu i'r cyfarfod hwn hefyd roi cyfle i Fyrddau Iechyd rannu arferion da mewn perthynas â gwarchod hawliau pobl hŷn, gyda Hywel Dda yn pennu eu dull seiliedig ar hawliau o gynnal asesiadau o alluedd meddyliol ac Abertawe Bro Morgannwg yn trafod gwaith er mwyn datblygu siarter pobl hŷn, sy'n debyg i'r siarter hawliau plant y maent eisoes wedi ei ddatblygu.

Byddaf yn parhau i weithio gyda Chanolfan Gydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG a'r Byrddau Iechyd er mwyn sicrhau bod gwaith ar wreiddio dull seiliedig ar hawliau mewn gwasanaethau gofal iechyd yn parhau i ddatblygu, a threfnwyd cyfarfod bwrdd gron arall ar gyfer Mehefin 2016 er mwyn trafod datblygiadau a chytuno ar gamau pellach.

Yn ogystal â'r gwaith hwn rwyf hefyd wedi bod yn gweithio â Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo buddion dull seiliedig ar hawliau a dylanwadu ar yr agenda seiliedig ar hawliau yng Nghymru. Mae hyn wedi creu diddordeb sylweddol mewn datblygu dull seiliedig ar hawliau ymysg rhanddeiliaid allweddol eraill, megis Cymdeithas Llywodraeth Leol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac Academi Cymru.

## Gwaith ychwanegol er mwyn dylanwadu ar bolisi, deddfwriaeth ac arferion

Er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn deall anghenion pobl hŷn a'u bod yn cael eu hadlewyrchu yn eu gwaith, rwyf hefyd wedi parhau i ddylanwadu ar bolisi ac arferion drwy fod yn aelod o, a gweithio mewn partneriaeth ag ystod eang o grwpiau arbenigol a byrddau / panelau cynghori, yn cynnwys:

- Grwpiau Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar bobl hŷn a heneiddio, dementia, tlodi tanwydd a thrafnidiaeth gymunedol.
- Grŵp Cynghori Allanol Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru
- Grŵp Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Dai a Phoblogaeth sy’n Heneiddio
- Bwrdd Rhaglen Cynhwysedd Digidol Llywodraeth Cymru
- Panel Cynghori Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus Llywodraeth Cymru
- Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol Cyngor Ar Bopeth
- Fforwm Gwasanaeth Cyngor Ariannol Cymru
- Grŵp Llywio Arfer Da Cymru
- Bwrdd Partneriaeth Strategol DWP
- Pwyllgor Cymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol Cymru

# Edrych i'r Dyfodol

Oherwydd bod y materion sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn yn niferus ac amrywiol, mae'r ystod o faterion posibl y gallwn ganolbwyntio arnynt fel Comisiynydd yn fawr iawn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi sicrhau bod fy ngwaith yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau y mae pobl hŷn wedi dweud wrthyf i sy'n bwysig iddyn nhw, ac amlinellir hynny yn fy Fframwaith Gweithredu 2013-17.

Er bod llawer o fy ngwaith yn barhad o waith mewn perthynas â blaenoriaethau penodol fy Fframwaith, bydd rhai meysydd yn cael mwy o sylw yn fy rhaglen waith, yn ddibynnol ar y brys a/neu brofiadau pobl hŷn.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd fy ngwaith yn cynnwys ffocws ar y canlynol:

- Gwireddu hawliau pobl hŷn a pharhau i herio'r oedraniaeth maent yn ei wynebu
- Profiadau pobl hŷn mewn perthynas â gwasanaethau Meddygon Teulu
- Cam dau Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru
- Materion a chyfleoedd newydd mewn perthynas ag iechyd meddwl o ganlyniad i fod yn genedl o bobl hŷn
- Gwaith Dilynol Adolygiad o Gartrefi Gofal
- Sicrhau bod gan bobl hŷn lais cryf a'u bod wedi'u grymuso i sicrhau'r hyn sydd ei angen arnynt (Eiriolaeth)
- Canllawiau i bobl hŷn ar ddeddfwriaeth newydd

Byddaf yn parhau i weithio gydag ystod eang o gyrff er mwyn meithrin gwybodaeth, ffordd o feddwl a dealltwriaeth ynglŷn â'r materion sy'n wynebu nifer o bobl hŷn ac er mwyn newid arferion ar draws Cymru. Fodd bynnag, byddaf yn parhau i ddefnyddio fy mhwerau cyfreithiol, pan mai hynny fydd y dewis mwyaf priodol sydd ar gael, er mwyn ysgogi'r newid y mae pobl hŷn ei eisiau, ei angen ac y mae ganddynt hawl ei weld.

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Briff ynghylch:

# Rhaglen Waith 2016-17

Mae'r Comisiynydd wedi datblygu ei Rhaglen Waith ar gyfer 2016-17 ar sail y blaenoriaethau a nodir yn ei Fframwaith Gweithredu:

- Gwreiddio llesiant pobl hŷn wrth galon gwasanaethau cyhoeddus
- Gwella ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol – a'u hargaeledd a mynediad atynt
- Amddiffyn a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a seilwaith cymunedol
- Sefyll cornel pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu niweidio a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn
- Mynd i'r afael â rhagfarn, anghydraddoldeb a gwahaniaethu

Mae manylion y gwaith y cynlluniwyd i'w wneud yn ystod 2016-17 wedi'u nodi isod.

---

## Deddfwriaeth i amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl hŷn

Ym mis Ionawr 2016, llwyddodd y Comisiynydd i sicrhau cefnogaeth drawsbleidiol ynglŷn â chael Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn amddiffyn ac yn hyrwyddo hawliau pobl hŷn ac yn gwreiddio dull o weithredu ar sail hawliau ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Comisiynydd wedi dod â grŵp o arbenigwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector cyfreithiol at ei gilydd, yn ogystal â phobl hŷn, i benderfynu ar yr hyn y gellid ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth arfaethedig a sut y byddai'n gweithio'n ymarferol.

Bydd canfyddiadau'r grŵp o arbenigwyr yn cael eu cofnodi mewn adroddiad briffio a fydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ac Aelodau'r Cynulliad cyn i raglen o ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol gael ei chynnal er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn parhau i wneud cynnydd.

## Diogelu Pobl Hŷn

Bydd gwaith yn parhau drwy gydol 2016-17 i godi ymwybyddiaeth am y graddau y mae pobl hŷn yn cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, ac effaith hynny, ac i hyrwyddo arferion da y gellid eu cyflwyno'n ehangach er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu'n well.

Bydd hyn yn cynnwys cyfres o seminarau i staff gwasanaethau cyhoeddus, a fydd yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gallu diogelu ac amddiffyn pobl hŷn yn fwy effeithiol; proses barhaus o ymgysylltu â byrddau diogelu ledled Cymru, a gweithio gyda hwy; a chyhoeddi canllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol y rheng flaen ynglŷn â'r dulliau mwyaf effeithiol o ymateb pan fo person hŷn yn cael ei gam-drin, a gaiff eu llunio mewn partneriaeth â Thîm Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

## Profiadau o wasanaethau meddygon teulu

Mae pobl hŷn o bob rhan o Gymru yn rhoi gwybod i'r Comisiynydd yn gyson am eu profiadau o wasanaethau meddygon teulu. Er bod y Comisiynydd wedi clywed am nifer o brofiadau cadarnhaol, yn aml bydd pobl hŷn yn tynnu sylw at yr heriau y maent yn eu hwynebu o ran cael mynediad at wasanaethau meddygon teulu, a defnyddio'r gwasanaethau hynny.

O ganlyniad, bydd y Comisiynydd a'i thîm yn casglu safbwyntiau pobl hŷn am wasanaethau meddygon teulu ledled Cymru – drwy gyfrwng sesiynau trafod mewn grŵp a thrwy holiaduron – i ganfod arferion da y gellid eu mabwysiadu'n ehangach ym meddygfeydd meddygon teulu, yn ogystal â meysydd y mae angen gweithredu gwelliannau ynddynt.

Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn 2017 sy'n cynrychioli lleisiau a phrofiadau pobl hŷn ledled Cymru, gan nodi ym mha ffyrdd yr hoffent i wasanaethau meddygon teulu gael eu darparu. Yna, bydd y Comisiynydd yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i sicrhau bod y camau sydd eu hangen i wella ansawdd rhan allweddol o'n system gofal iechyd yn cael eu gweithredu.

## Ysgogi newidiadau ar gyfer pobl sy’n byw gyda dementia

Bydd y Comisiynydd yn craffu ar yr ymatebion a gafwyd gan gyrff cyhoeddus i’w hadroddiad “Dementia: mwy na dim ond colli’r cof” er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd y camau sydd eu hangen i gyflawni’r newidiadau y mae pobl sy’n byw gyda dementia a’r rhai sy’n gofalu amdanynt am eu gweld, ac y mae angen iddynt eu gweld, yn ein gwasanaethau cyhoeddus.

Yn dilyn y gwaith dadansoddi hwn, bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi datganiad sy’n nodi’r arferion da sydd wedi’u cyflwyno o ganlyniad i’w hadroddiad a chan amlygu unrhyw feysydd y mae’n rhaid cyflawni gwelliannau pellach ynddynt.

## Adolygiad Dilynol o Gartrefi Gofal Preswyl

Pan gyhoeddodd y Comisiynydd ei Hadroddiad ar yr Adolygiad o Gartrefi Gofal Preswyl, dywedodd y byddai’n cynnal Adolygiad dilynol er mwyn sicrhau bod y camau yr oedd cyrff cyhoeddus a darparwyr cartrefi gofal preswyl wedi addo eu cymryd yn mynd rhagddynt ac y bydd y deilliannau i bobl hŷn yn cael eu cyflawni.

Trefnwyd i’r Adolygiad dilynol hwn, y bydd lleisiau pobl hŷn yn ganolog iddo unwaith eto, gychwyn yn yr hydref yn 2016. Bydd rhagor o fanylion am y dull gweithredu sydd wedi’i gynllunio a’r meysydd y bydd y Comisiynydd yn canolbwyntio arnynt yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir.

## Seminarau Darparwyr Cartrefi Gofal Preswyl

Gan adeiladu ar sail cyfres lwyddiannus o seminarau a gynhaliwyd yn 2015-16, a rannodd arferion da a oedd wedi’u canfod drwy gyfrwng Adolygiad y Comisiynydd o Gartrefi Gofal Preswyl, bydd seminarau pellach yn cael eu cynnal i ddarparwyr cartrefi gofal preswyl yn ystod 2016-17 er mwyn parhau i ategu gwelliannau i ansawdd bywyd pobl hŷn sy’n byw mewn cartrefi gofal preswyl ledled Cymru.

Bydd seminarau 2016-17 yn cael eu cynnal mewn partneriaeth â’r Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Abertawe; Gwasanaeth Gofalwyr Powys; a Taith. Bydd cynnwys pob seminar wedi’i deilwra ar sail adborth gan ddarparwyr cartrefi gofal preswyl a gymerodd ran yn y seminarau y llynedd.

## Mynd i’r afael ag oedraniaeth a gwahaniaethu

Mae pobl hŷn ledled Cymru yn rhoi gwybod i’r Comisiynydd yn rheolaidd am eu profiadau o gael eu trin yn annheg oherwydd eu hoedran a’r

modd y mae hyn yn tanseilio'u hunan-barch, eu hunan-hyder, ac ansawdd eu bywyd.

O ganlyniad, mae seminarau hyfforddi pellach wedi'u cynllunio i'w cynnal ledled Cymru er mwyn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ymysg darparwyr gwasanaethau cyhoeddus am y ffyrdd y gallant fynd i'r afael ag oedraniaeth a gwahaniaethu. Bydd y seminarau wedi'u hanelu'n arbennig at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar ran pobl hŷn a'r rhai sy'n gyfrifol am ddylunio gwasanaethau a'u darparu.

Mae'r seminarau hyfforddi wedi'u dylunio i sicrhau bod y cyfranogwyr yn deall oedraniaeth a'i heffaith ar bobl hŷn, yn ogystal â'r ffyrdd y mae rhagfarnau a thybiaethau anymwybodol yn gallu effeithio ar y broses o ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r hyfforddiant hefyd yn nodi pwysigrwydd mabwysiadu dull o weithredu ar sail hawliau wrth ddarparu gwasanaethau a'r modd y mae hyn yn gallu arwain at ddeilliannau gwell i bobl hŷn.

### Mynd i'r afael â bylchau yn y gyfraith sy'n effeithio ar bobl hŷn

Wedi iddi ganfod nifer o faterion yng nghyswllt system gyfreithiol y DU sy'n golygu mai mewn achosion prin y bydd y rhai sy'n cyflawni troseddau yn erbyn pobl hŷn yn cael eu cyhuddo, eu herlyn neu eu heuogfarnu, bydd y Comisiynydd yn gweithio gyda Chomisiwn y Gyfraith i archwilio'r ffyrdd y gellir cryfhau'r gyfraith i sicrhau nad yw oedran unigolyn yn parhau i fod yn ffactor sy'n pennu a yw'n cael ei gefnogi a'i amddiffyn neu beidio gan y system cyfiawnder troseddol.

### Gwella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol

Yn dilyn proses helaeth o ymgysylltu â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (a elwid yn Fyrddau Gwasanaethau Lleol gynt) ledled Cymru i sicrhau bod yr asesiadau o lesiant a'r cynlluniau llesiant a fydd yn cael eu datblygu o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn adlewyrchu anghenion pobl hŷn ac yn mynd i'r afael â'r anghenion hynny, bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi canllawiau ffurfiol i gefnogi ymhellach ddatblygiad yr asesiadau a'r cynlluniau.

### Eiriolaeth Annibynnol

Er gwaethaf y rôl hanfodol a chwaraeir gan y gwasanaethau eiriolaeth annibynnol wrth ddiogelu pobl hŷn a'u cefnogi i gael dewis a rheolaeth dros eu bywydau , mae mynediad at eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn amrywio ar draws Cymru.

Er mwyn ymgorffori'r werth a phwysigrwydd eiriolaeth broffesiynol annibynnol o fewn darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus , bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi ei disgwyliadau er mwyn sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu cadarnhau o dan y gyfraith.

### Heneiddio’n Dda yng Nghymru

Bydd Cam Dau o Raglen Heneiddio’n Dda yng Nghymru yn parhau yn ystod 2016-17, a hynny gyda phartneriaid cenedlaethol – gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, y sector gwirfoddol a’r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu – gan nodi amryw o ymrwymiadau i gyflawni newidiadau a gwelliannau o dan y pum thema allweddol ynghylch Heneiddio’n Dda (cymunedau sy’n gyfeillgar i oed, cymunedau cefnogi pobl â dementia, atal cwympiadau, unigrwydd ac arwahanrwydd, cyfleoedd ar gyfer dysgu a chyflogaeth).

Bydd gwaith yn parhau hefyd ar ddatblygu ymhellach rwydweithiau lleol Heneiddio’n Dda a chynorthwyo unigolion a grwpiau lleol i weithredu drostynt eu hunain i hyrwyddo cynhwysiant ac annibyniaeth, yn ogystal â chynnal eu gwydnwch eu hunain, drwy gyfrwng cymorth uniongyrchol a thrwy barhau i ddatblygu cyngor ac adnoddau arbenigol y gall unigolion gael gafael arnynt a’u defnyddio’n rhwydd. Bydd hyn yn cynnwys datblygu rhwydwaith o hyrwyddwyr lleol Heneiddio’n Dda yng Nghymru, y maent hwythau’n bobl hŷn, a fydd yn gallu lledaenu camau gweithredu lleol ymhellach.

### Ymgysylltu â phobl hŷn ledled Cymru

Bydd y Comisiynydd a’i thîm yn parhau i deithio i bob cwr o Gymru i ymgysylltu ag ystod amrywiol o bobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau’n llywio ac yn nodweddu gwaith y Comisiynydd.

Bydd y Sioe Deithiol Ymgysylltu hefyd yn galluogi’r Comisiynydd i sicrhau bod pobl hŷn ledled Cymru yn gwybod am ei rôl, ei gwaith a’i blaenoriaethau, a’r ffyrdd y mae’n gallu darparu cefnogaeth a chymorth uniongyrchol iddynt drwy gyfrwng ei Thîm Gwaith Achos.

Bydd y Comisiynydd hefyd yn parhau i ymgysylltu â phobl hŷn drwy gyfrwng grwpiau a sefydliadau mwy ffurfiol i bobl hŷn, fel Fforymau Strategaeth 50+ Awdurdodau Lleol, y Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol, Confensiwn Cenedlaethol y Pensiynwyr, Cynghrair Pobl Hŷn Cymru, Cymru Bywiog, a Senedd Pobl Hŷn Cymru.

### Dylanwadu ar Bolisïau, Deddfwriaeth ac Arferion

Yn ychwanegol at y gwaith a nodir uchod, bydd y Comisiynydd yn parhau i ddylanwadu ar ystod eang o bolisïau, deddfwriaeth ac arferion drwy gyfrwng cyfarfodydd parhaus ag Ysgrifenyddion a Gweinidogion Cabinet Cymru, Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion, drwy ddarparu ymatebion i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol, a thrwy roi tystiolaeth i Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Bydd y gwaith hwn yn sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl hŷn yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau, a bod arferion dilynol yn adlewyrchu anghenion pobl hŷn ac yn cyflawni deilliannau cadarnhaol.

## Gwybodaeth Bellach

I gael rhagor o wybodaeth am Raglen Waith 2016-17 y Comisiynydd, mae croeso ichi gysylltu â ni (mae'r wybodaeth am sut i gysylltu ar gael dros y ddalen).

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

# Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 029 2044 5030
E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com

Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Trydar: @comisiwnphcymru

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

1. **Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol** [Rhan 10 o'r Ddeddf]

Ffocws allweddol ar gyfer y Comisiynydd wrth graffu ar y Ddeddf a'i rheoliadau a'i chodau ymarfer ategol (yn cynnwys canllawiau statudol) oedd sicrhau bod mynediad priodol at eiriolaeth broffesiynol annibynnol er mwyn galluogi lleisiau pobl gael eu clywed. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd o dan y Ddeddf i (a) ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r unigolyn a (b) ystyried y pwysigrwydd o ddarparu'r cymorth priodol i alluogi pobl gyfrannu mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Bydd eiriolaeth, yn ei ystyr ehangaf (fel eiriolaeth gan deulu, ffrindiau neu gan weithiwr cymdeithasol), yn chwarae rhan allweddol yn hyn. Fodd bynnag, mae swyddogaeth benodol i Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol (EBA) oherwydd y bydd y math hwn o eiriolaeth yn sicrhau y bydd llais yr unigolyn yn cael ei gyfleu gan unigolyn sydd wedi cael ei hyfforddi'n broffesiynol ac nid yn weithiwr gyda'r Awdurdod Lleol ac nid yn rhwymedig i weithredu ym 'mudd gorau' yr unigolyn – eu swyddogaeth, yn syml, yw cynnig cynrychioliad hollol ddiduedd o safbwyntiau unigolyn.

Ar hyn o bryd, mae'r gofynion mewn perthynas â'r ddarpariaeth o EBA yn rhan o'r Cod Canllawiau ar Eiriolaeth sy'n amlinellu'r adegau y mae'n rhaid i Awdurdod Lleol ystyried angen yr unigolyn i gael eiriolaeth (yn ei hystyr ehangaf). Mae'n rhaid i Awdurdod Lleol drefnu darparu EBA yn rhad ac am ddim i unrhyw un sy'n cael profiad o ambell rwystr wrth gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Mae'r maen prawf cymhwysedd hwn yn cael ei amlinellu yn y Cod Ymarfer.

Gall mynediad at EBA helpu i sicrhau bod pobl yn derbyn y gofal a'r cymorth y maen nhw ei angen mewn ffordd sy'n briodol iddyn nhw, a gall fod o gymorth i gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer unigolion, ac yn ddiweddarach, ar gyfer cyrff

statudol. Yn y modd hynny, bydd y Comisiynydd yn ymgymryd â rhaglen waith er mwyn asesu i ba raddau y mae pobl hŷn yn cael mynediad at Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys mynediad at EBA yn ehangach (e.e. Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol, Eiriolwr Annibynnol ar ran Galluedd Meddyliol), yn ogystal â chynnwys hawlogaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd y prosiect yn cyflwyno adroddiad yn manylu ar brofiadau pobl hŷn ac argymhellion ar feysydd ar gyfer gwella a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2018.

Hyd yma, nid yw'n eglur sut na pha bryd y bydd Llywodraeth Cymru yn asesu'r gweithredu ac effaith y Cod Canllawiau ar Eiriolaeth.

2. **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** [Rhan 2, Adran 17 o'r Ddeddf]

Mae'r Ddeddf yn gofyn i bob Awdurdod Lleol drefnu i wybodaeth a chyngor ynglŷn â gwasanaethau gofal a chymorth fod ar gael mewn modd hawdd ei gyrraedd. Yn ogystal, mae angen iddyn nhw ddarparu pobl gyda chymorth wrth gael mynediad at ofal a chymorth. Fel y cyfryw, mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol drefnu i ddarparu Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh).

Gall y Gwasanaeth GCCh wahaniaethu drwy'r Awdurdodau Lleol, ond mae'n rhaid iddo fod yn hawdd ei gyrraedd mewn amrediad o fformatau (fel wyneb yn wyneb, teleffon, ar-lein). Mae hyn yn cael ei amlinellu yn y Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 2. O fis Ebrill 2018, bydd y Cynlluniau Ardal sy'n cael eu cynhyrchu fel gofyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn manylu ar ddarpariaeth y GCCh yn ardal pob Awdurdod Lleol.

Mae'r Gwasanaeth GCCh yn debygol o fod y man cyswllt cyntaf ar gyfer pobl a all fod angen gofal a chymorth. Yn y modd hynny, mae'n hanfodol fod gan bob GCCh drwy Gymru wybodaeth drylwyr ynglŷn â pha wasanaethau sydd ar gael ym mhob ardal (yn ogystal â chael gwybodaeth ynglŷn â meysydd cysylltiedig eraill fel tai ac iechyd) er mwyn cyfeirio pobl yn briodol a deall dyletswyddau trosfwaol y Ddeddf er mwyn sicrhau bod hawliau pobl o dan y Ddeddf yn cael eu cynnal (fel mynediad at Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol).

Ni fydd y graddau y mae pobl yn gwybod ynglŷn â'u Gwasanaeth GCCh lleol ac yn gallu cael mynediad ato yn wybyddus tan fis Mai 2017[1] yn dilyn cyhoeddi'r data perfformiad (fel yr amlinellwyd gan y Cod Ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol).

[1] Bydd y datganiad cyntaf ym mis Mai 2017 ar gyfer y flwyddyn adrodd 2016-17.

Ymhellach, tra bydd tîm gwaith achos y Comisiynydd yn sicrhau bod unigolion sydd ynghlwm ag achosion sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol yn ymwybodol o'r gwasanaeth GCCh ym mhob Awdurdod Lleol, bydd ansicrwydd yn parhau ynglŷn â sut mae'r Gwasanaethau GCCh yn gwneud cynnydd o fewn pob Awdurdod Lleol a sut fydd y ddarpariaeth o Wasanaethau GCCh drwy Gymru yn edrych tan y bydd y Cynlluniau Ardal yn cael eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2018.

**3. Asesu a Chwrdd ag Anghenion** [Rhannau 3 & 4 o'r Ddeddf]

O dan y Ddeddf, mae gan bawb yr hawl i asesiad lle mae'n ymddangos bod ganddyn nhw angen am ofal a chymorth, yn cynnwys gofalwyr. Mae'n hanfodol fod unigolion ynghlwm yn llawn yn y broses asesu ac yn cael eu galluogi i gydgynhyrchu'r ateb sydd yn addas ar eu cyfer nhw.

Drwy'r Ddeddf, bydd angen i Awdurdodau Lleol roi sylw dyledus i:

- safbwyntiau, dymuniadau a theimladau unigolyn
- nodweddion, diwylliant a chredoau unigolyn
- pwysigrwydd o ddarparu cymorth priodol er mwyn galluogi unigolyn i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau
- pwysigrwydd o ddechrau gyda'r rhagdybiaeth mai'r unigolyn (oedolyn) yw'r un gorau i farnu beth sydd orau ar ei gyfer ef
- pwysigrwydd o hyrwyddo annibyniaeth yr unigolyn.

Yn ychwanegol, mae'n rhaid i unigolion gwrdd â'r Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol, fel yr amlinellir yn y Cod Ymarfer ar Ran 4, er mwyn bod yn gymwys am ofal a chymorth. Gall unigolion sydd yn anghymwys barhau i gael mynediad at y Gwasanaeth GCCh a gwasanaethau ataliol eraill, ond gall fod tâl am y rhain. Mae'r meini prawf cymhwysedd yn rhoi pwyslais ar gwrdd ag anghenion a all gael eu cwrdd yn unig drwy gymorth gan yr Awdurdod Lleol. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod Lleol i weithio mewn partneriaeth â'r unigolyn i edrych ar wahanol ffyrdd o gwrdd â'i anghenion gofal a chymorth.

Bydd tîm gwaith achos y Comisiynydd yn parhau i gynorthwyo pobl hŷn i gael mynediad at y gofal a'r cymorth y maen nhw eu hangen a sicrhau bod pobl hŷn yn gallu meddu ar eu hawliau o dan y Ddeddf newydd. Yn ogystal â chynorthwyo gydag achosion unigol, bydd y Comisiynydd yn gweithio i gynorthwyo cyrff statudol i ddeall eu dyletswyddau o dan y Ddeddf, gan sicrhau bod eu hymarfer gwaith yn cynnal egwyddorion y Ddeddf yn ogystal â'u dyletswyddau penodol o dan gyfraith.

Bydd data perfformiad ar fynediad at wasanaethau gofal a chymorth yn cael eu hadrodd ym mis Mai 2017. Felly, ni fydd y graddau y mae'r system newydd wedi galluogi pobl neu wedi atal pobl rhag cael mynediad at y gofal a'r cymorth y maen nhw eu hangen, yn cynnwys y defnydd o'r Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol, yn wybyddus tan y bydd y data hwn yn cael ei gyhoeddi drwy'r gofynion adrodd ar fesur perfformiad[2]. Bydd y Comisiynydd yn adolygu a ddylid gofyn am unrhyw wybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru unwaith y bydd y data hwn ar gael.

4. **Sylw dyledus i Egwyddorion y CU ar gyfer Unigolion Hŷn** [Rhan 2, Adran 7 o'r Ddeddf]

Mae'n rhaid i unrhyw un sydd yn cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan y Ddeddf roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Unigolion Hŷn. Mae hon yn ddyletswydd trosfwaol ac mae'n rhaid ei hystyried bob amser drwy gydol siwrnai'r unigolyn gyda'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae Egwyddorion y CU yn ganllawiau sy'n amlinellu sut y dylid trin pobl hŷn drwy agweddau allweddol o'u bywydau, yn cynnwys annibyniaeth, cyfranogi, gofal, hunangyflawni ac urddas.

Mae'r Comisiynydd wedi rhoi sylw manwl i'r gofyniad yn y Ddeddf i roi sylw dyledus i Egwyddorion y CU gan ei bod yn darparu'r cyfle i sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu cynnal. Nid yw'n eglur a yw Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw gamau gweithredu drwy gyfrwng Cod Ymarfer neu fecanweithiau eraill er mwyn manylu ar sut y byddai hyn yn edrych yn ymarferol. Felly, ar sail ragweithiol, mae'r Comisiynydd yn darparu hyfforddiant i helpu cyrff statudol i ddod yn hollol ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan y ddyletswydd hon. Yn dilyn hyn, bydd y Comisiynydd yn ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd yn gofyn am wybodaeth fanwl ar unrhyw weithredu sy'n cael ei gynllunio gan Lywodraeth Cymru.

Tra bod y [Cod Ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol] yn rhestru nifer o fesurau perfformiad i asesu a yw Awdurdodau Lleol yn cwrdd â'u goblygiadau o dan Safon Ansawdd 1[3], ni fydd y mesurau hyn o angenrheidrwydd yn cipio a yw'r Awdurdod Lleol wedi rhoi sylw dyledus i Egwyddorion y CU. Mae'r mesurau hyn eu hunain yn ymwneud â chanlyniadau penderfyniadau a wnaed (e.e. y nifer o bobl a oedd yn adrodd eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch). O ganlyniad, mae angen mwy o eglurder ar sut y

[2] Fel yr amlinellwyd yn y Cod Ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

[3] Safon Ansawdd 1: Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol weithio gyda phobl sydd angen gofal a chymorth a chyda gofalwyr sydd angen cymorth er mwyn diffinio a chydgynhyrchu canlyniadau llesiant personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni, Cod Ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

bydd y ddyletswydd i roi sylw dyledus yn cael ei chipio er mwyn asesu ai yw Awdurdodau Lleol yn cyflawni'r gofyniad hwn o dan y Ddeddf.

**5. Y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol**

Mae'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yn anelu at ddarparu mesur o lesiant ar lefel genedlaethol. Wedi cael ei gynnwys o fewn y Fframwaith mae'r Datganiad Llesiant Cenedlaethol, sy'n adeiladu ar y diffiniad o lesiant yn Adran 2 o'r Ddeddf, gan ddiffinio llesiant mewn perthynas ag wyth agwedd o'u bywyd:

- iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol;
- amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod;
- addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden;
- perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol;
- cyfraniad a wneir at y gymdeithas;
- sicrhau hawliau a hawlogaethau;
- llesiant cymdeithasol ac economaidd; ac addasrwydd llety preswyl.

Croesawodd y Comisiynydd y Fframwaith o gofio'i fod yn gydnaws â'i Model Ansawdd Bywyd[4] a'i ganlyniad trosfwaol o les, neu 'bywyd gyda gwerth, ystyr a phwrpas'. Mae'n hanfodol fod y canlyniadau sy'n cael eu cynnwys yn y Fframwaith yn cael eu defnyddio nid yn unig i fesur cyflawniad, ond eu bod yn ogystal yn gweddu yn gyson wrth galon rheoleiddio a chomisiynu a hefyd er mwyn sicrhau fframwaith canlyniadau sengl ac osgoi'r amrywiadau annerbyniol yn y safonau sy'n cael eu gosod ar gyfer gofal pobl hŷn y tynnwyd sylw atyn nhw gan ei Harolwg ar Gartrefi Gofal[5].

Bydd adrodd ar y Fframwaith yn darparu dealltwriaeth ar effaith gyffredinol y gofal a'r cymorth ar fywydau pobl a bydd yn galluogi blaenoriaethu gweithgaredd ar gyfer gwella. Bydd hyn ar ffurf adroddiad blynyddol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ar gynnydd a wnaed yn erbyn y Fframwaith er mwyn darparu tystiolaeth a yw llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth ar lefel genedlaethol yn gwella yng Nghymru. Bydd yr adroddiad blynyddol cyntaf yn cael ei gynhyrchu yn 2016/17[6].

---

[4] Fframwaith Gweithredu 2013-17, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 2013, t. 2, http://www.olderpeoplewales.com/wl/Publications/pub-story/13-05-23/Framework_for_Action.aspx

[5] Lle i'w Alw'n Gartref?, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 2014, (Gofyniad ar gyfer Gweithredu 6.1), t.118 http://www.olderpeoplewales.com/wl/Reviews/Residential_Care_Review/ReviewReport.aspx

[6] Gwasanaethau Cymdeithasol: Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth, Llywodraeth Cymru, t. 6 http://gov.wales/docs/dhss/publications/160610frameworkcy.pdf

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

# Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 08442 640 670
E-bost: ask@olderpeoplewales.com

Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Trydar: @comisiwnphcymru

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon